**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**Rhif yr Eitem**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol) |
| **Dyddiad:** | 16 Medi 2021 |
| **Amser:** | 10:00 am |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Rhithiol |
| **Teitl:** | Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Adolygu'r Polisi Presennol - Penderfynu ynghylch Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau presennol |

**Diben yr adroddiad:** ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Trwyddedu fel y gall y Gwasanaeth Trwyddedu ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ynghylch newid Polisi Addasrwydd y Cyngor, sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am drwyddedau cerbydau hacni, trwyddedau cerbydau hurio preifat, trwyddedau gyrru a thrwyddedau gweithredu a deiliaid presennol trwyddedau o'r fath.

**Cefndir**

Dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (y Ddeddf) a Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847, mae'r Cyngor yn gyfrifol am drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Diogelwch y cyhoedd yw'r prif gonsyrn wrth drwyddedu gyrwyr. Mae aelodau'r Pwyllgor hwn yn eistedd yn rheolaidd ar Baneli Adolygu Trwyddedau neu gyfarfodydd is-bwyllgorau er mwyn ystyried ceisiadau neu ystyried deiliaid trwyddedau yn y fasnach Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio preifat. Weithiau, euogfarnau troseddol yr ymgeisydd sy'n cael eu hystyried. Fodd bynnag, o gofio mai nod cyffredinol yr Awdurdod Trwyddedu yw diogelu'r cyhoedd, yn amlach na pheidio yr hyn y mae angen ei ystyried yw materion eraill, megis honiadau, cyhuddiadau, cwynion, hanes deiliad trwyddedau o ran cydymffurfio â'r gofynion a/neu ei hanes o ran ei ymddygiad, er mwyn penderfynu a yw'n unigolyn 'cymwys a phriodol' neu'n unigolyn 'diogel ac addas' i dderbyn trwydded neu i gadw'r drwydded sydd ganddo.

Er 2015, mae'r Awdurdod wedi defnyddio polisi/dogfen ganllaw sy'n seiliedig ar ganllawiau a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Gartref i gynorthwyo Aelodau i benderfynu a yw ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn gymwys/yn addas. Dros amser, mae'r ddogfen hon wedi datblygu. Mae'r polisi presennol wedi ei atodi – (**Atodiad A).**

Mae'r polisi wedi ei ddiweddaru dros y blynyddoedd a chafodd ei adolygu ddiwethaf yn 2014, pan gynhyrchodd Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru ddogfen ganllaw/bolisi a gymeradwywyd ac a hybwyd ar gyfer ei mabwysiadu/ei fabwysiadu gan holl awdurdodau Cymru, a thrwy hynny sicrhau cysondeb ledled Cymru wrth ystyried addasrwydd gyrwyr a gweithredwyr.

**Yr Angen i Adolygu'r Polisi Addasrwydd/Cymhwyster presennol**

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd y Sefydliad Trwyddedu ddogfen newydd, sef '*Canllaw ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat'.* Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan y Sefydliad mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (LGA), Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Trwyddedu a Gorfodi (NALEO) a Chyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (LLG) ac mae wedi bod yn destun ymgynghoriad eang yn genedlaethol.

Mewn cyfarfodydd diweddar o Banel Arbenigol Trwyddedu Cymru ystyriwyd y ddogfen hon ac fe'i cymeradwywyd gyda'r argymhelliad bod pob un o awdurdodau Cymru yn cymeradwyo Canllaw y Sefydliad Trwyddedu ac yn ei roi ar waith, gan ddisodli eu canllawiau/polisi presennol. Mae llawer o awdurdodau Lloegr a Chymru eisoes wedi mabwysiadu'r polisi newydd ac mae eraill yn y broses o wneud hynny.

Mae pennod 4 y ddogfen hon o baragraff 4.6 ymlaen yn ffurfio'r canllaw allweddol i Aelodau wrth iddynt benderfynu ynghylch addasrwydd unigolion ac mae'r darn hwn wedi ei dynnu o'r ddogfen fel sail ar gyfer Polisi/Dogfen Ganllaw newydd Cyngor Sir Ceredigion **(Atodiad B)**, fel y gall Aelodau ei ddefnyddio/ei defnyddio o hyn allan wrth iddynt benderfynu ynglŷn ag addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau.

Er y gall Aelodau gyfeirio at y canllaw/polisi, dylid penderfynu ar bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r holl ffeithiau ac i sylwadau llafar yr ymgeisydd, gan adael y Pwyllgor yn rhydd i wyro oddi wrth y polisi lle bo amgylchiadau yn gwarantu hynny.

Argymhellir bod aelodau'n cymeradwyo bod y Gwasanaeth Trwyddedu yn cynnal ymgynghoriad ar y polisi diwygiedig arfaethedig a fydd yn cynnwys pob un o argymhellion y ddogfen 'Canllaw ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat'.

**Yr Angen am Yngynghoriad**

Y bwriad yw cynnal ymgynghoriad 4 wythnos ar fersiwn ddrafft y Polisi Addasrwydd/Cymhwyster, er mwyn i randdeiliaid y fasnach dacsis a phartïon eraill sydd â diddordeb, sefydliadau sydd â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd gael y cyfle i wneud sylwadau ar y polisi arfaethedig. Mae'r polisi arfaethedig wedi ei atodi - (**Atodiad C**).

Rhoddir ystyriaeth i ymatebion a fydd yn deillio o'r ymgynghoriad a rhoddir adroddiad am y polisi terfynol ynghyd ag unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.

**Goblygiadau Cyfreithiol**

Rhaid i'r canlynol fod yn wir am yr holl benderfyniadau ar ran y Cyngor:

a. eu bod o fewn pwerau cyfreithlon y Cyngor;
b. eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad gweithdrefnol a orfodir gan y gyfraith;
c. eu bod o fewn pwerau'r corff neu'r unigolyn sy'n arfer grym ar ran y Cyngor;
d. eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r gofynion gweithdrefnol a orfodir gan y Cyngor e.e. rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol;
e. eu bod ar sail gwybodaeth lawn a chywir;

f. bod y cymhelliad dros eu gwneud yn gywir;
g. eu bod yn cael eu gwneud gan roi ystyriaeth i ddyletswydd ymddiriedol y Cyngor i'w drethdalwyr;
h. eu bod yn rhesymol ac yn briodol ym mhob un o'r amgylchiadau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn penderfynu gwneud y canlynol:

a) Cymeradwyo bod ei Bolisi Addasrwydd ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn cael ei adolygu,
b) Cymeradwyo'r angen i ymgynghori â'r fasnach a'r cyhoedd ehangach (gan gynnwys sefydliadau lleol perthnasol) ynglŷn â fersiwn ddrafft y Polisi Addasrwydd/Cymhwyster (Gyrwyr a Pherchnogion Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat).

**Polisi:** Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau a fydd yn cyfrannu at amgylchedd iach, bywydau iachach ac yn diogelu pobl fregus y sir.

**Cyllideb:** O fewn y gyllideb

**Deddf Hawliau Dynol:** Yn cydymffurfio

**Asesiad Effaith Integredig:** Heb ei gwblhau eto. Yn dilyn ymgynghori ar adolygiad y polisi addasrwydd, cynhelir asesiad effaith (cam cyntaf) er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Pwerau statudol:** Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Hapchwarae 2005

**Papurau cefndir:** 'Canllaw ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat' (Ebrill 2018)

| | |
|---|---|
| **Maes gwasanaeth:** | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Enw cyswllt:** | Anne-Louise Davies |
| **Swydd:** | Rheolwr Safonau Masnachu a Thrwyddedu |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 31 Awst 2021 |

| | |
|---|---|
| **Atodiad A -** | Polisi Addasrwydd presennol Cyngor Sir Ceredigion |
| **Atodiad B -** | Canllaw ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat |
| **Atodiad C -** | Polisi Addasrwydd Drafft Cyngor Sir Ceredigion |

# Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

## Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr

**DYDDIAD: MAI 2014 Mabwysiadwyd gan y Cabinet 1/7/2014 DYDDIAD: 1af Gorffennaf 2014**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y polisi hwn yw darparu arweiniad ar y meini prawf a ystyrir gan y Cyngor wrth benderfynu a ydy ymgeisydd neu ddaliwr trwydded presennol yn berson addas a gweddus i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni, gyrrwr cerbyd hurio preifat neu weithredwr cerbyd hurio preifat.

1.2.1 Nod y polisi hwn yw sicrhau diogelwch y cyhoedd. Bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw sicrhau bod person yn addas a gweddus i ddal trwydded. I wneud hynny, bydd yn ystyried ffactorau amrywiol gan gynnwys y canlynol:

- Nad yw'r person yn fygythiad i'r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag pobl anonest;
- Diogelwch plant a phobl ifanc;
- Diogelwch pobl agored i niwed;
- Bod y cyhoedd yn gallu defnyddio gerbydau trwyddedig yn hyderus.

1.3 Nod y polisi hwn yw darparu arweiniad i unrhyw berson sydd â diddordeb mewn trwyddedu cerbyd cyhoeddus neu gerbyd hurio preifat, gan gynnwys, ymhlith eraill:

- Ymgeiswyr am drwyddedau gyrru/gweithredu
- Gyrwyr/gweithredwyr trwyddedig y mae eu trwyddedau'n cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu
- Yr Heddlu
- Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu (neu gorff penderfynu arall perthnasol)
- Gwrandawiadau apêl Llys Ynadon a Llys y Goron yn erbyn penderfyniadau gan awdurdodau lleol.

1.4 Fel arfer dirprwyir y broses o ganiatáu, adnewyddu neu atal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat i un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd swyddogion trwyddedu'n defnyddio'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad i ganiatáu trwydded ai peidio Mewn achosion priodol, cyfeirir ceisiadau am drwyddedau i'r Pwyllgor Trwyddedu (neu gorff penderfynu perthnasol arall). Er y bydd y swyddogion a'r Pwyllgor/Is-bwyllgor yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau a geir yn y polisi, **ystyrir pob achos yn ôl ei deilyngdod** a lle bo'r amgylchiadau'n gofyn am hynny, gall y Pwyllgor/Swyddog beidio â dilyn y canllawiau.

1.5 Os bydd ymgeisydd/daliwr trwydded yn methu â datgan unrhyw gollfarnau; rhybuddion; rhybuddiadau; hysbysiadau cosb, gorchmynion neu geryddon ar ei ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys neu faterion eraill sydd i ddod, gellir cyfeirio'r achos at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu.

## 2.0 Polisi Cyffredinol

2.1 Penderfynir pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod.

2.2 Ni fydd person a gafwyd yn euog o drosedd o angenrheidrwydd yn cael ei wahardd rhag cael trwydded, ond fel arfer byddai disgwyl iddo/iddi:

a. Beidio â throseddu am gyfnod priodol (fel y gosodir isod); a
b. Dangos tystiolaeth ei fod ef neu hi'n berson addas a gweddus i ddal trwydded - cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno tystiolaeth o'r fath.

2.3 At ddibenion y Polisi hwn gall "materion eraill i'w hystyried" gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

a) Collfarnau troseddol / moduro;
b) Cwrt-marsial;
c) Rhybuddiadau;
d) Hysbysiadau cosb penodol neu hysbysiadau cosb eraill;
e) Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion tebyg;
f) Torri amodau trwyddedu;
g) Rhybuddion neu Geryddon Ffurfiol;
h) Cyhuddiadau neu faterion sydd heb fynd i'r llys eto;

2.4 Os bydd gan ymgeisydd gollfarn(au) neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried ni all y Cyngor adolygu teilyngdod y gollfarn neu'r mater arall.

2.5 Os bydd ymgeisydd/daliwr trwydded wedi'i gael yn euog, neu os oes ganddo ef neu hi fater arall i'w ystyried yn wneud â chynorthwyo, annog, ymgeisio, cynllwynio, cynghori, caffael, achosi, caniatáu neu annog unrhyw rai o'r collfarnau/materion troseddol neu foduro a nodir yn y canllawiau hyn, fe'u hystyrir yn berthnasol i'r mater gwreiddiol.

## 3.0 Apeliadau

3.1 Mae gan unrhyw ymgeisydd sydd wedi methu â chael trwydded gyrrwr cerbyd hacni, cerbyd hurio preifat a/neu weithredwr cerbyd hurio preifat, neu yrrwr/gweithredwr trwyddedig y mae ei drwydded wedi'i hatal neu'i dirymu dros dro, yr hawl i apelio i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad o benderfyniad.

## 4.0 Pwerau

4.1 Gosodir y pwerau i ganiatáu trwydded gyrrwr/gweithredwr o fewn Adran 51, Adran 55 ac Adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1876 (y Ddeddf). Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu trwydded i yrrwr cerbyd hacni, cerbyd hurio preifat na Thrwydded Weithredu oni bai ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a gweddus i ddal trwydded o'r fath.

4.2 Gosodir y pwerau i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr yn Adran 61 o'r Ddeddf, pan fydd yr ymgeisydd/daliwr trwydded wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd, anwedduster neu drais; methu â chydymffurfio â Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847; methu â chydymffurfio â darpariaeth Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu unrhyw achos rhesymol arall.

4.3 Mae Adran 61 (2B) yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu, os bernir bod hynny er diogelwch y cyhoedd, i atal neu ddirymu trwydded gyrrwr, a hynny'n ddi-oed. Cyflwynir y gyrrwr â Hysbysiad o Benderfyniad yn esbonio pam y gwnaethpwyd y penderfyniad, a bydd yn dod i rym pan gyflwynir y rhybudd i'r gyrrwr. Gall y gyrrwr apelio yn erbyn y penderfyniad hwn ond ni chaiff yrru yn ystod y cyfnod apêl.

4.4 Mae Adran 62 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gweithredwr os ydy'r ymgeisydd/daliwr trwydded wedi'i gael yn euog o beidio â chydymffurfio neu droseddu dan ddarpariaethau Rhan II o'r Ddeddf; neu ar sail unrhyw ymddygiad ar ran y gweithredwr sydd ym marn y Cyngor yn golygu nad yw'n addas, neu yn sgil unrhyw newid perthnasol i amgylchiadau'r gweithredwr ers caniatáu'r drwydded, y seiliwyd yr hawl i gael trwydded arnynt, neu unrhyw reswm rhesymol arall.

4.5 Mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu i roi ystyriaeth i'r holl gollfarnau a gofnodwyd yn erbyn ymgeisydd am neu ddaliwr trwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni, p'un ai ydynt wedi darfod ai peidio. Felly bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth i'r holl gollfarnau perthnasol, yn arbennig pan fydd yna hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o droseddu dro ar ôl tro.

## 5.0 Ystyried hanes troseddol a ddatgelir

5.1 Dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55, a 59 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol bod yr Awdurdod Trwyddedu'n sicrhau bod y sawl sy'n gwneud cais i ganiatáu neu adnewyddu trwydded gyrrwr/gweithredwr yn berson 'addas a gweddus' i ddal trwydded o'r fath. Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd/daliwr trwydded unrhyw faterion i'w hystyried, gall yr Awdurdod Trwyddedu roi ystyriaeth i'r canlynol:

- Pa mor berthnasol yw'r drosedd/troseddau i'r drwydded y gwneir cais amdani;
- Pa mor ddifrifol oedd y drosedd/troseddau;

- Pryd y cyflawnwyd y drosedd/troseddau;
- Dyddiad y gollfarn ac oed yr ymgeisydd ar adeg  collfarnu;
- Y ddedfryd a osodwyd gan y llys;
- P’un ai ydyn nhw’n rhan o batrwm o droseddu;  Unrhyw ffactorau eraill all fod yn berthnasol.

## 6.0 Trais

6.1 Mae gyrwyr trwyddedig mewn cysylltiad agos â’r  cyhoedd yn rheolaidd.  Fel arfer, gwrthodir cais am drwydded neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu’i dirymu os bydd yr ymgeisydd/daliwr trwydded wedi’i gael yn euog o drosedd a arweiniodd at golli bywyd.

6.2 Mewn achosion eraill, mae unrhyw un sy’n arddangos tuedd i fod yn dreisgar yn annhebygol o gael trwydded nes bod ef neu hi’n rhydd o gollfarn(au) o’r fath neu fater arall/faterion eraill i’w (h)ystyried **am 3 blynedd o leiaf**.  Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiaeth eang o droseddau sy’n cynnwys trais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

6.3 Fel arfer gwrthodir cais am drwydded neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu’i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/faterion eraill i’w (h)ystyried am drosedd a restrir isod, a bod y gollfarn/collfarnau neu fater arall/materion eraill i’w (h)ystyried **lai na 5 mlynedd** cyn dyddiad y cais:

- Codi helynt/ffrwgwd;
- Ymosod gan achosi gwir niwed corfforol;
- Ymosodiad cyffredin;
- Difrod troseddol;
- Ymosod ar, neu rwystro swyddog awdurdodedig;
- Gwrthod arestiad;
- Meddiant o arf (neu arf ffug) neu unrhyw drosedd arall yn ymwneud ag arfau ar wahân i arf tanio;
- Trosedd dan Adran 5 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddu, codi braw neu beri gofid)

- 
- 

Trosedd dan Adran 4 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 (ofn ennyn trais)
Trosedd dan Adran 4A o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddu, codi braw neu beri gofid yn fwriadol); Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod:

6.4 Fel arfer gwrthodir cais am drwydded neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried am drosedd a restrir isod a bod y gollfarn/collfarnau neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried **lai na 10 mlynedd** cyn dyddiad y cais:

- Unrhyw droseddau casineb difrifolach, h.y. gyda thrais
- Llosgi bwriadol;
- Niwed corfforol difrifol bwriadol;
- Clwyfo maleisus neu niwed corfforol difrifol ar sail hiliaeth;
- Bod ym meddiant arf tanio;
- Terfysg;
- Lladrad;
- Anhrefn treisgar;
- Troseddau tebyg, neu droseddau sy'n disodli'r uchod

6.5 Fel arfer gwrthodir cais am drwydded neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn am drosedd megis:

- Llofruddiaeth;
- Dynladdiad;
- Dynladdiad neu laddiad beius wrth yrru;  Troseddau terfysgol;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

6.6 Fel arfer gwrthodir cais os bydd gan yr ymgeisydd mwy nag un gollfarn neu fater arall i'w ystyried yn ystod y **10 mlynedd** diwethaf am drosedd o natur dreisgar.

6.7 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu fel arfer yn dirymu trwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni pan fydd y daliwr wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud â rhwystro, defnyddio trais neu fygwth un o swyddogion yr heddlu, neu un o swyddogion awdurdodedig yr awdurdod trwyddedu.

## 7.0 Troseddau rhyw ac anwedduster

7.2 Fel arfer gwrthodir cais neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu os bydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried am drosedd megis:

- 
- 
- Ymosod trwy dreiddiad;
- Ymelwa ar buteindra;
- Ymosodiad anweddus;
- Troseddau'n ymwneud â phlant neu oedolion agored i niwed;
- Meddiant o luniau anweddus, pornograffi plant ac ati;
- Treisio;
- Ymosodiad rhywiol;
- Masnachu pobl ar gyfer ymelwa rhywiol neu fath arall o ymelwa;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

7.3 Fel arfer gwrthodir cais am drwydded neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried am drosedd a restrir isod a bod y gollfarn/collfarnau neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried **lai na 7 mlynedd** cyn dyddiad y cais:

- Dinoethiad anweddus;
- Cymell (hel puteiniaid o gerbyd);
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

7.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annhebygol o roi trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw ar y pryd.

7.5 Fel arfer gwrthodir cais os oes gan yr ymgeisydd mwy nag un gollfarn neu fater arall i'w ystyried sydd o natur rywiol.

## 8.0 Anonestrwydd

8.1 Disgwylir i'r ymgeisydd neu ddaliwr trwydded presennol fod yn berson gonest. Mae gyrwyr trwyddedig yn delio ag arian parod ac eiddo gwerthfawr all gael ei adael yn eu cerbydau. Mae'n ofynnol bod dalwyr trwyddedau'n mynd ag eiddo o'r fath i'r heddlu o fewn 24 awr. Mae'r arfer gyffredin o ddanfon eiddo heb gludwr yn dangos yr ymddiriedaeth sydd gan bobl fusnes mewn gyrwyr trwyddedig. Hefyd, mae'n gymharol hawdd i yrrwr anonest i dwyllo'r cyhoedd trwy ofyn am fwy na'r pris cyfreithiol neu'r pris a gytunwyd ac ati. Gall ymwelwyr tramor gael eu drysu gan ein harian ni, a gallant gael eu twyllo gan yrrwr diegwyddor. Am yr holl resymau hyn, rhaid i gymeriad ymgeisydd/daliwr trwydded fod yn gwbl ddi-fai.

8.2 Fel arfer gwrthodir cais am drwydded neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried am drosedd a restrir isod a bod y

- 

gollfarn/collfarnau neu fater/materion i'w (h)ystyried **lai na 5 mlynedd** cyn dyddiad y cais:

- Twyll budd-dal;
- Byrgleriaeth;
- Cynllwynio i dwyllo;
  Ffugio;
  Twyllo;
- Trafod neu dderbyn nwyddau wedi'u dwyn;
- Cael arian neu eiddo drwy dwyll;
- Mathau eraill o dwyll;
- Mynd â cherbyd heb ganiatâd;  Lladrata;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

8.3 Fel arfer gwrthodir cais neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried am unrhyw un o'r troseddau uchod ac nad yw wedi bod yn rhydd o gollfarn(au) neu faterion eraill i'w hystyried am 3 blynedd o leiaf

- Am wneud datganiad ffug i swyddog awdurdodedig sy'n ymgymryd â'i ddyletswyddau er mwyn cael trwydded.

**9.0 Cyffuriau**

9.1.1 Ystyrir unrhyw drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau yn fater difrifol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried natur y cyffuriau a'r swm dan sylw mewn perthynas â'r troseddau canlynol:

- Tyfu cyffur rheoledig;
- Mewnforio cyffur rheoledig;
- Cynhyrchu cyffur rheoledig;
- Cyflenwi cyffur rheoledig;  Bod â meddiant o gyffur rheoledig
- Neu droseddau tebyg.

9.2 Fel arfer gwrthodir cais neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried am unrhyw un o'r troseddau uchod ac nad yw wedi bod yn rhydd o gollfarn(au) neu faterion eraill i'w hystyried am **5 mlynedd o leiaf**

9.3 Fel arfer gwrthodir cais neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded fwy nag un gollfarn neu fater arall i'w ystyried

- 
- 

am droseddau sy’n ymwneud â meddiant o gyffuriau, ac nad yw wedi bod yn rhydd o’r gollfarn neu fater arall i’w ystyried am **5 mlynedd o leiaf**.

9.4 Fel arfer gwrthodir cais neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu’i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn unigol neu fater arall i’w ystyried am drosedd sy’n ymwneud â meddiant o gyffuriau **o fewn y 3 blynedd diwethaf.** Dylid rhoi ystyriaeth i natur y cyffuriau a’r swm dan sylw.

9.5 Os oes tystiolaeth o ddefnyddio neu gamddefnyddio cyffuriau'n barhaus, neu o ddibyniaeth arnynt, efallai y bydd yn ofynnol cael arbenigwr i gynnal archwiliad meddygol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA). Pe bai'r ymgeisydd yn gaeth i gyffuriau, byddai'n ofynnol iddo/iddi fel arfer i ddangos tystiolaeth o **3 blynedd** yn rhydd rhag cyffuriau.

9.6 Os oes tystiolaeth o ddefnyddio neu gamddefnyddio alcohol yn barhaus, neu o ddibyniaeth arno, efallai y bydd yn ofynnol cael arbenigwr i gynnal archwiliad meddygol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA). Fel arfer byddai gofyn dangos tystiolaeth o **3 blynedd** yn rhydd rhag alcohol.

**10.0 Troseddau gyrru lle cafwyd marwolaeth**

10.1 Fel arfer gwrthodir cais neu caiff trwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried am unrhyw un o'r troseddau a restrir isod, ac nad yw wedi bod yn rhydd o gollfarn neu fater arall i'w ystyried am **10 mlynedd.**

- Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
- Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus;  Neu unrhyw droseddau tebyg.

10.2 Fel arfer gwrthodir cais neu caiff trwydded bresennol ei dileu neu'i dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn(au) neu fater arall/materion eraill i'w (h)ystyried am unrhyw un o'r troseddau a restrir isod, ac nad yw wedi bod yn rhydd o gollfarn neu fater arall i'w ystyried am **7 mlynedd.**

- Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal;
- Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr heb drwydded, wedi'u gwahardd, neu heb yswiriant.
- Neu unrhyw droseddau tebyg.

**11.0 Yfed a Gyrru/Gyrru Dan Ddylanwad Cyffuriau**

11.1 Mae'n bosibl na fydd collfarn unigol, neu fater arall i'w ystyried yn arwain at wrthod cais neu at atal neu ddirymu trwydded bresennol, ar yr amod bod **3 blynedd o leiaf** wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben. Ymdrinnir yn yr un modd â chollfarn am 'wrthod neu fethu â darparu sampl', neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny.

11.2 Mae'n annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeiswyr a chanddynt fwy nag un gollfarn am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol/cyffuriau neu wrthod neu fethu â darparu sampl, neu fater arall yn gysylltiedig â hynny, oni bai bod cyfnod o **10 mlynedd** wedi mynd heibio ers cael y drwydded yrru yn ôl yn dilyn y gollfarn neu fater arall i'w ystyried diwethaf.

## 12.0 Collfarnau Moduro a Phwyntiau Cosb

Fel gyrwyr proffesiynol sydd â'r hawl i gludo teithwyr sy'n talu ffi, mewn cerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan yr Awdurdod Lleol, mae'n hanfodol bod safon gyrru ymgeiswyr neu ddalwyr trwyddedi'n gwbl ddi-fai.

| Pwyntiau ar Drwydded DVLA | Proses ymgeisio |
|---|---|
| 1 - 3 pwynt | Ni fydd fel arfer yn arwain at wrthod neu ddirymu trwydded ac ni chaiff ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu. |
| 4 - 6 pwynt | Ni fydd fel arfer yn arwain at wrthod neu ddirymu trwydded ond gall gael ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu a/neu osod sancsiynau eraill |
| 7 -12 pwynt | Caiff ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu |
| 12 pwynt + | Caiff ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu. Annhebygol o roi trwydded. |

### 12.1 Troseddau Traffig Difrifol

12.2 At ddibenion y Polisi hwn, ar wahân i'r rhai a ddisgrifir ym mharagraffau 10 ac 11 uchod o'r polisi hwn, disgrifir y troseddau moduro canlynol fel 'Troseddau Traffig Difrifol':

| | |
|---|---|
| AC10 | Peidio ag aros ar ôl damwain |
| AC20 | Peidio â rhoi manylion neu adrodd am ddamwain o fewn 24 awr |
| AC30 | Troseddau anniffiniedig yn gysylltiedig â damwain |
| BA10 | Gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn Llys |
| BA30 | Ceisio gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn Llys |
| DD40 | Gyrru'n beryglus |
| DD90 | Gyrru'n wyllt |
| IN10 | Gyrru cerbyd sydd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti |

| | |
|---|---|
| LC20 | Gyrru'n groes i amodau trwydded yrru |
| LC30 | Gyrru ar ôl gwneud datganiad ffug ynghylch ffitrwydd wrth wneud cais am drwydded |
| LC40 | Gyrru cerbyd heb roi gwybod am anabledd |
| LC50 | Gyrru ar ôl i drwydded gael ei dirymu neu'i gwrthod am resymau meddygol |
| MS50 | Rasio mewn cerbyd modur ar y briffordd |
| MS60 | Troseddau nad ydynt wedi'u cynnwys dan godau eraill |
| MS90 | Peidio â darparu manylion adnabod gyrrwr, ac ati |
| UT50 | Dwysgipio cerbyd |

12.3 Fel arfer caiff cais ei wrthod neu drwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu os oes gan yr ymgeisydd/daliwr trwydded gollfarn neu fater arall i'w ystyried am Drosedd Traffig Difrifol ac nad yw wedi bod yn rhydd o'r gollfarn neu fater arall i'w ystyried am **12 mis o leiaf.**

12.4 Fel arfer, gwrthodir cais gan ymgeisydd sydd wedi cyflawni mwy nag un Trosedd Traffig Difrifol o fewn y 5 mlynedd diwethaf, ac ni ddylid ystyried unrhyw gais pellach nes bod cyfnod o **3 blynedd** o leiaf wedi mynd heibio'n rhydd rhag collfarnau neu faterion eraill o'r fath i'w hystyried.

12.5 Os bydd unrhyw gollfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer Trosedd Traffig Difrifol yn arwain at waharddiad, dylai ymgeiswyr ddarllen yr adran isod yn y canllawiau hyn sy'n dwyn y teitl 'gwahardd rhag gyrru'.

12.6 **Gwahardd rhag gyrru (ac eithrio gyrru ac yfed / gyrru dan ddylanwad cyffuriau)**

12.7 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n trin cyfnod o waharddiad fel cyfnod lle na fyddai'r gyrrwr wedi bod yn gymwys i gynnig gwasanaeth, ac fe gaiff ddiystyru penderfyniad llys i roi heibio neu leihau cyfnod o waharddiad naill ai ar sail caledi eithriadol o dan A.35 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 neu am 'resymau arbennig' o dan A.34 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

12.8 Fel arfer caiff cais ei wrthod neu drwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd/daliwr trwydded, neu os oes mater arall i'w ystyried, a arweiniodd at waharddiad o lai na 56 diwrnod o hyd, oni bai bod cyfnod o **6 mis o leiaf** wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

12.9 Fel arfer caiff cais ei wrthod neu drwydded bresennol ei hatal neu'i dirymu os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd/daliwr trwydded, neu os oes mater arall

i’w ystyried, a arweiniodd at waharddiad o hyd at 12 mis, ond bai bod cyfnod o **12 mis o leiaf** wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

12.10 Fel arfer caiff cais ei wrthod neu drwydded bresennol ei hatal neu’i dirymu os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd/daliwr trwydded, neu os oes mater arall i’w ystyried, a arweiniodd at waharddiad o 12 mis neu ragor, oni bai bod cyfnod o **24 mis o leiaf** wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

12.11 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn caniatáu cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni gan unigolyn sydd wedi’i wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy, oni bai bod **7 mlynedd o leiaf** wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

## 13.0 Mân Droseddau Traffig

13.1 Caiff Troseddau Traffig eraill nad ydynt wedi’u rhestru yn y polisi hwn eu trin fel ‘Mân Droseddau Traffig’. Mân drosedd yw trosedd sy’n derbyn rhwng 1 a 3 phwynt cosb.

13.2 Pan fydd gan ymgeisydd/daliwr trwydded un gollfarn neu fater arall i’w ystyried mewn perthynas â Mân Drosedd Traffig, ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod cais neu atal/dirymu trwydded.

13.3 Gall mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i’w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i’w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Gall gyrrwr trwyddedig gael ei gyfeirio at sylw’r Pwyllgor Trwyddedu.

## 14.0 Cyhuddiadau neu wysion sydd heb eu hateb

14.1 Os yw’r unigolyn yn destun cyhuddiad neu wŷs sydd heb ei hateb, gellir parhau i brosesu ei gais, ond er diogelwch y cyhoedd, gellir gohirio’r penderfyniad nes bod yr achos wedi dod i ben.

## 15.0 Gwybodaeth am droseddau lle na chafwyd collfarn

15.1 Os yw’r ymgeisydd neu ddaliwr trwydded wedi’i arestio, neu’i gyhuddo, ond heb ei gael yn euog o drosedd ddifrifol sy’n awgrymu y gallai fod yn beryglus i’r cyhoedd, dylid ystyried gwrthod y cais neu atal/ddirymu’r cais/trwydded.

## 16.0 Aildroseddu

16.1 Er ei bod yn bosibl y bydd gan yr ymgeisydd sawl collfarn, neu fod materion eraill i'w hystyried, sydd yn bodloni'r canllawiau uchod ar sail unigol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd hanes o aildroseddu, oni bai bod cyfnod o **10 mlynedd o leiaf** wedi mynd heibio ers y gollfarn neu fater arall i'w ystyried fwyaf diweddar.

## 17.0 Torri Deddf, Is-ddeddf neu Amod Trwydded

17.1 Mae'n annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeisydd sydd â chollfarn neu faterion eraill i'w hystyried yn gysylltiedig â thorri deddf, is-ddeddf neu amod trwydded, oni bai bod cyfnod o **12 mis o leiaf** wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

17.2 Os canfyddir bod daliwr trwydded presennol wedi torri deddf, is-ddeddf neu amod trwydded am y tro cyntaf, mae'n debygol o gael rhybudd ysgrifenedig am ei ymddygiad yn y dyfodol, ar yr amod na chafodd teithwyr eu rhoi mewn perygl, ac na fu unrhyw risg i'r cyhoedd.

17.3 Os canfyddir bod daliwr trwydded presennol wedi torri mwy nag un ddeddf, isddeddf neu amod trwyddedu, neu fod yna achos unigol o dramgwyddo o natur ddifrifol, gall y Pwyllgor Trwyddedu atal neu ddirymu'r drwydded.

17.4 Mae'r uchod yn berthnasol waeth pa gamau cyfreithiol a gymerwyd neu sydd ar droed.

**Trwyddedau a roir gan Awdurdodau eraill**

Pan fydd cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat wedi'i gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu, a bod yr ymgeisydd eisoes yn meddu ar drwydded debyg a roddwyd gan Awdurdod Lleol arall, bydd y canllawiau yn y polisi hwn yn disodli unrhyw benderfyniad a wnaed gan Awdurdod arall.

**Preswylwyr Tramor**

Os bydd ymgeisydd wedi treulio 6 mis neu ragor dramor, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl gweld tystiolaeth bod y wlad neu'r gwledydd dan sylw wedi gwirio'i gofnod troseddol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

# Canllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedigion yn y fasnach cerbydau hacni a llogi preifat




Ebrill 2018

Institute of Licensing

Crëwyd gan y Sefydliad Trwyddedu mewn partneriaeth â:

LLG Lawyers in Local Government

NALEO

Local Government Association

# Cynnwys


Rhagair ....2

Pennod 1: Cyflwyniad....3

Pennod 2: Troseddwyr a Throseddau - Trosolwg ....5

Risg ail-droseddu: ....7

Pennod 3: Trosolwg Trwyddedu 'Tacsis'....9

Gyrwyr Tacsi .... 10

Gweithredwyr Llogi Preifat .... 14

Perchenogion Cerbydau .... 15

Pennod 4: Canllaw ar Bennu .... 17

Gofynion Cyn Ymgeisio .... 17

Cerbydau: .... 17

Gyrwyr: .... 18

Gweithredwyr: .... 18

Gyrwyr .... 20

Troseddau'n arwain at farwolaeth .... 21

Cam-fanteisio .... 21

Tramgwyddau treisgar .... 21

Meddu ar arf.... 21

Tramgwyddau rhyw ac anwedduster .... 21

Anonestrwydd .... 22

Cyffuriau .... 22

Gwahaniaethu .... 22

Euogfarnau moduro .... 22

Yfed a gyrru/gyrru dan ddylanwad cyffuriau/defnyddio ffôn symudol neu declyn llaw wrth yrru .... 22

Tramgwyddau moduro eraill .... 23

Tramgwyddau cerbydau hacni a llogi preifat .... 23

Tramgwyddau defnydd cerbyd .... 23

Gweithredwyr Llogi Preifat .... 23

Perchnogion Cerbydau .... 24

Cydnabyddiaethau .... 25

## Rhagair

Swyddogaeth trwyddedu yw diogelu'r cyhoedd. Rhaid i aelod o'r cyhoedd sy'n teithio mewn cerbyd a yrrir gan ddieithryn allu ymddiried yn y gyrrwr. Ydyn nhw'n onest? Ydyn nhw'n gymwys? Ydyn nhw'n ddiogel? Oes modd ymddiried ynddyn nhw? Wrth wneud busnes gyda phobl eraill, fel arfer mae gennym amser a chyfle i wneud asesiadau o'r fath. Wrth wneud busnes gyda gyrwyr tacsis, nid oes modd gwneud hyn. Felly, rhaid i ni, ac rydym ni, yn dibynnu ar y drwydded fel gwarant o ddiogelwch ac addasrwydd y gyrrwr ar gyfer y dasg sy'n cael ei chwblhau.

Felly mae gan awdurdod trwyddedu gyfrifoldeb beichus. Wrth wneud penderfyniadau o ran rhoi ac adnewyddu trwyddedau, yn y bôn, mae'n dweud bod y trwyddedai'n rhywun y gellir ymddiried ynddo i fynd â'r teithiwr o A i B yn ddiogel. Gallai'r teithiwr hwnnw fod yn chi, neu eich mam oedrannus, neu eich merch yn ei harddegau, neu berson sydd wedi yfed gormod, neu sy'n agored i niwed am lawer o resymau eraill.

Dylai pawb sy'n gweithio yn y maes hwn ddod yn gyfarwydd â ffeithiau achos Rotherham, sy'n parhau i fod yn dystiolaeth o'r hyn a all ddigwydd pan nad yw gwasanaethau trwyddedu'n perfformio eu rôl diogelu'n ddigonol. Ond ni ddylai difrifoldeb y stori ofnadwy honno dynnu ein sylw oddi ar y gwaith o ddiogelu'r cyhoedd rhag mwy o analluedd, diofal neu dwyll. Nid oes rhaid gosod safonau diogelwch ac addasrwydd yn isel. I'r gwrthwyneb, gellir eu gosod yn uchel, er mwyn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaeth tacsi. Mae'n dda gwybod nad yw'ch gyrrwr yn droseddwr. Mae'n well gwybod ei fod ef/ei bod hi'n weithiwr proffesiynol ymrwymedig.

Yn hollbwysig, nid yw'r maes hwn yn un y mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gael cydbwysedd teg ynddo rhwng hawl y gyrrwr i weithio a hawl y cyhoedd i gael eu diogelu. Mae hawl gan y cyhoedd i gael eu diogelu, atalnod llawn. Mae hynny'n golygu bod hawl gan yr awdurdod trwyddedu a'i fod wedi'i rwymo i drin diogelwch y cyhoedd yn fater o'r pwys mwyaf. Wedi'r cwbl, dyma bwynt yr ymarfer.

Felly, rhaid croesawu'r canllaw hwn. Mae'n pwysleisio'n gywir bod unrhyw amgylchedd sy'n ymwneud â'r trwyddedai'n berthnasol o bosibl, ar yr amod wrth gwrs ei bod yn berthnasol i'w diogelwch a'u haddasrwydd i gael trwydded. Mae'r rhoi arweiniad defnyddiol ac awdurdodol i awdurdodau trwyddedu ar sut y dylent gwblhau eu tasg bwysig o wneud penderfyniadau am ddiogelwch ac addasrwydd gyrwyr a gweithredwyr.

Er bod trwyddedu'n swyddogaeth leol wrth gwrs, mae'n ymddangos yn afresymol y gallai'r un math o ymddygiad arwain at gyfnod byr heb drwydded mewn un ardal, a chyfnod llawer hirach mewn ardal gymdogol. Os yw gyrrwr yn addas yn ardal A, mae'n addas yn ardal B wrth gwrs, ac i'r gwrthwyneb. Os, fel y gobeithir, y caiff y canllaw hwn ei fabwysiadu'n eang, bydd hyn yn arwain at rywfaint o unffurfiaeth genedlaethol, sy'n gwasanaethu budd y cyhoedd yn gyson, gyda sicrwydd a ffydd yn y system drwyddedu. Gallai cydymffurfio â'r canllaw ddiogelu awdurdodau trwyddedu pan fo apeliadau.

Felly cymeradwyir y canllaw i awdurdodau trwyddedu ei ddefnyddio. Y gobaith yw y bydd wrth law pob cynghorydd a swyddog sy'n gweithio yn y maes trwyddedu tacsis yn y man.

Philip Kolvin QC
Cornerstone Barristers

Ebrill 2018

# Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd y canllaw hwn gan yr Institute of Licensing mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), Lawyers in Local Government (LLG) a'r Gymdeithas Genedlaethol Swyddogion Trwyddedu a Gorfodi (NALEO), ar ôl ymgynghori'n eang arno. Rydym yn ddiolchgar i bob un o'r tri sefydliad am eu cyfraniadau. Cymeradwyir y canllaw hwn yn ffurfiol gan bob un o'r sefydliadau hynny.

1.2 Rhaid i nod pennaf unrhyw Awdurdod Lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â thrwyddedu Gyrwyr Cerbydau Hacni a Llogi Preifat, Perchenogion a Gweithredwyr Cerbydau fod i ddiogelu'r cyhoedd a phobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau Cerbyd Hacni a Llogi Preifat (neu y gallent gael eu heffeithio ganddynt).

1.3 Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi bod rhaid i unrhyw berson fodloni'r awdurdod ei fod yn berson addas a phriodol i gael trwydded ac y dylid cynnal prawf ar ôl i unrhyw ymgeisydd ennill unrhyw gymwysterau sydd eu hangen yn rhesymol[1]. Y prawf yw rhan olaf y broses ymgeisio pan gaiff penderfyniad ei wneud, boed hynny gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog dan Gynllun Dynodi. Mae'n cynnwys archwiliad manwl o'i gymeriad cyfan er mwyn barnu ar ei ffitrwydd a'i addasrwydd.

1.4 Os nad yw deiliad trwydded yn cyrraedd y safon addas a phriodol ar unrhyw adeg, dylid diddymu'r drwydded neu ni ddylid ei hadnewyddu os gwneir cais am hynny.

1.5 Nid oes unrhyw ganllaw Statudol neu Weinidogol diweddar ar sut y dylid mynd ati i wneud penderfyniadau o'r fath neu ar y materion sy'n berthnasol neu'n hanfodol i benderfyniad. Mae'r canllaw hwn yn ategu Llawlyfr Cynghorwyr Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat y CLlL ac unrhyw ganllaw Llywodraeth a ddaw. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o gronfa ddata'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol sydd ar y gweill ar wrthod a diddymu trwyddedu cerbydau hacni a llogi preifat.

1.6 Bwriad y ddogfen hon yw rhoi arweiniad ar bennu addasrwydd, gan ystyried cymeriad yr ymgeisydd neu'r trwyddedai. Gellir ei ddefnyddio wedyn gan awdurdodau lleol fel sail i'w polisïau eu hunain: yn benodol mae'n ystyried sut y dylid ystyried hanes yr ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded a'i berthnasedd i'w 'addasrwydd a phriodoldeb' neu'i 'gymeriad'. Fel gydag unrhyw ganllawiau, nid oes angen ei ddilyn yn slafaidd ond mae'n cynnig man cychwyn neu gyfeirio ar gyfer gwneud penderfyniadau gan ystyried teilyngdod penodol pob achos.

[1] Ac eithrio perchenogion cerbydau. Yn yr achosion hynny, nid oes gofyniad "addas a phriodol", ond mae gan yr awdurdod ryddid llwyr o ran cymerawdyo trwydded.

1.7 Gall polisi awdurdod trwyddedu gymryd 'agwedd linell bendant' a dweud "byth" mewn polisi, ond mae'n parhau i fod yn bolisi, ac felly nid yw'n creu rhwystr ar ddisgresiwn yr awdurdod. Caiff pob achos ei ystyried ar sail ei deilyngdodau ei hun gan ystyried y polisi, a gall yr awdurdod trwyddedu gefnu ar y polisi pan fo'n ystyried ei bod yn briodol gwneud felly. Fel ar fer bydd hyn yn digwydd pan fo'r awdurdod trwyddedu'n ystyried bod amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau gwahanol benderfyniad. Cymeradwywyd yr agwedd hon gan yr Uchel Lys yn achos *R (ar gais Nicholds*) *yn erbyn Awdurdod y Diwydiant Diogelwch*[2].

1.8 Ym Mhennod 2, mae'r Canllaw hwn yn archwilio'r meddylfryd sydd y tu ôl i duedd unigolion i aildroseddu ar hyn o bryd. Mae'n glir nad oes rheolau pendant i hyn ac nad oes tystiolaeth ystadegol ystyrlon neu fanwl a all gynorthwyo gyda rhoi'r polisi ar waith. O ystyried swyddogaeth bwysig trwyddedu i ddiogelu'r cyhoedd, dylai unrhyw far gael ei osod ar y lefel uchaf sy'n rhesymol, er yn destun arfer disgresiwn fel y nodir ym mharagraff 1.7 a Phenodau 3 a 4.

1.9 Nid yw'r Canllaw hwn yn cynnwys unrhyw restrau manwl o droseddau. Nodir yr holl droseddau mewn categori cyffredinol megis 'anonestrwydd' neu 'cyffuriau'. Mae hyn yn osgoi'r ddadl nad yw'r Polisi yn trafod trosedd penodol gan 'nad yw ef ar y rhestr' ac mae hefyd yn osgoi dadleuon bod arf tanio'n fwy difrifol na chyllell ac y dylai'r Polisi wahaniaethu. Ym mhob achos, dylid rhoi'r lefel briodol o bwysigrwydd i'r dystiolaeth a roddir.

1.10 Ni all y Canllaw hwn gael grym deddfwriaeth, newydd neu ddiwygiedig; y mae'r angen am hyn yn gwbl clir i, ac wedi'i gefnogi'n llawn gan, y Sefydliad a sefydliadau eraill sy'n gweithio gydag ef. Ei fwriad yw helpu awdurdodau lleol i sicrhau mwy o gysondeb er mwyn i ymgeiswyr allu dewis rhwng awdurdodau i raddau llai. Cydnabyddir nad oes modd cyflawni hyn heb roi safonau gofynnol cenedlaethol ar waith.

1.11 Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae Gweithgor y Sefydliad wedi ymgynghori â Chynghorwyr, Swyddogion Trwyddedu, Cyfreithwyr, y Masnachau Cerbydau Hacni a Llogi Preifat, Academyddion, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu ac wedi ystyried y materion o bersbectifau'r holl bobl hynny.

.

[2] [2007] 1 WLR 2067

# Pennod 2: Troseddwyr a Throseddau - Trosolwg

2.1 Nod gwaith yr awdurdod lleol o drwyddedu'r masnachau tacsi a CLlP yw diogelu'r cyhoedd.[3] Gan gadw hyn mewn cof, rhaid i Ddiogelu'r Cyhoedd fod wrth flaen meddwl rhywun sy'n gwneud penderfyniadau wrth bennu a ddylid ystyried unigolyn yn berson "addas a phriodol" i gael trwydded.

2.2. Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg byr o ddiogelu'r cyhoedd, sut mae pennu risg a ffactorau i'w hystyried pan fo ymgeisydd yn ceisio dangos newid i'w ymddygiad troseddol.

2.3 Mae'r broses drwyddedu'n rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiogelu'r cyhoedd. O ystyried natur y rôl, mae'n hollbwysig bod y rheiny sydd am weithio yn y masnachau fodloni'r safonau gofynnol. Gan y gellir ystyried bod yr ymddygiad troseddol blaenorol yn ddaroganwr wrth bennu ymddygiad yn y dyfodol yn ogystal â bai, mae'n hanfodol bod y person sy'n gwneud penderfyniadau'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol gan gynnwys euogfarnau, rhybuddion a chwynion blaenorol a'r cyfnod ers i'r rhain gael eu cyflawni.

2.4 Mae ymchwil helaeth wedi bod i resymau unigolion dros droseddu, pam bod rhai'n dysgu o'u camgymeriadau ac yn stopio troseddu tra bo eraill yn eu cael eu hunain mewn cylch o droseddau ailadroddus. Mae sawl theori wedi datblygu dros lawer o flynyddoedd yn cynnig mewnwelediad i'r rhesymau dros ymddygiad troseddol. Un thema gyffredin yw nad yw troseddau i gyd yr un fath ac nad oes modd dileu'r risg honno, na rhagweld y dyfodol. Yr hyn y gellir ei wneud yw archwilio pob achos yn unigol, edrych ar y risgiau cysylltiedig ynghyd ag unrhyw newid i amgylchiadau ers i unrhyw droseddau gael eu cyflawni i gynorthwyo gyda gwneud y penderfyniad.

2.5 Ffactor allweddol wrth ystyried cais gan unigolyn y mae unrhyw droseddau, rhybuddion neu gwynion wedi'u cofnodi yn ei erbyn yw Diogelu'r Cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys asesu'r risg o aildroseddu a niwed[4]. Mae teclynnau asesu risgiau'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y rheiny sy'n gyfrifol am reoli unigolion sydd wedi cyflawni troseddau. Nid yw Awdurdodau Lleol bob amser yn gwybod y wybodaeth hon felly mae'n bwysig, wrth wneud penderfyniadau am addasrwydd, eu bod yn deall ymddygiad troseddol a'r risg o aildroseddu mewn termau cyffredinol.

[3] para 8 "Taxi and Private Hire Licensing – Best Practice Guide" yr Adran Drafnidiaeth

[4] Kemshall, H. (2008). Understanding the Management of High Risk Offenders (Crime and Justice). Gwasg y Brifysgol Agored

2.6 Nododd Flaud[5] fod risg, mewn egwyddor, yn fater o ffaith, ond bod perygl yn fater o farn. Mae'n ychwanegu y gellir dweud mai risg yw tebygolrwydd digwyddiad; gallai perygl fod graddau difrod (niwed) a achosir pe bai'r digwyddiad hwnnw'n digwydd[6].

2.7 Mae'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yn cyfeirio at risg mewn dau ddimensiwn. Hynny yw tebygolrwydd y bydd trosedd, ac effaith / niwed y drosedd pe bai'n digwydd. Yn gyffredinol, wrth wneud penderfyniad am debygolrwydd aildroseddu, mae angen ystyried ffactorau sefydlog a dynamig.

2.8 Mae ffactorau sefydlog yn hanesyddol ac nid ydynt yn newid megis oedran, troseddau blaenorol a rhyw. Gellir eu defnyddio'n sail i asesiadau actiwaraidd ac maent yn hanfodol wrth ystyried potensial unigolyn i aildroseddu yn y dyfodol[7]. Er enghraifft, yn ôl ystadegau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae 44% o oedolion yn cael eu heuogfarnu eto o fewn blwyddyn o gael eu rhyddhau. I'r rheiny a oedd yn y carchar am lai na 12 mis, cynyddodd y ffigur hwn i 59%[8]. Derbynnir yn eang fod pobl sydd â nifer uchel o droseddau blaenorol yn gyffredinol yn aildroseddu'n fwy na'r rheiny â llai o droseddau blaenorol[9].

2.9 Ystyrir y gall ffactorau dynamig newid ac amrywio dros amser. Maent yn cynnwys agweddau, gwybyddiaeth a bod yn fyrbwyll[10]. Dogfennir bod unigolyn yn fwy tebygol o aildroseddu os nad yw ei anghenion yn cael eu bodloni. Wrth ystyried a yw unigolyn wedi'i adsefydlu, mae'n bwysig ystyried y cymhelliant y tu ôl i'w droseddau a ffactorau risg dynamig ar y pryd, yn erbyn y camau sydd wedi'u gweithredu i fynd i'r afael â ffactorau ac felly'n lleihau'r risg o aildroseddu.

2.10 Rhaid nodi y sylwir ar broblemau a/neu anghenion yn fwy aml mewn poblogaethau sy'n troseddu nag yn y boblogaeth gyffredinol[11 12]. Mae llawer o'r ffactorau hyn wedi eu rhyng-gysylltu a'u hymwreiddio mewn profiadau unigolyn yn y gorffennol. Gall hyn effeithio ar allu person i newid ei ymddygiad, yn benodol os nad oes unrhyw un wedi mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd neu os nad oes cymorth wedi'i geisio. Bydd anghenion yn amrywio o unigolyn i unigolyn a byddant yn dibynnu ar lefel cymhelliant yr unigolyn a natur y drosedd a gyflawnwyd.

---

[5] Flaud, R. (1982). Cited in, Gendreau, P., Little, T. and Goggin, C. (1996). A meta-analysis of the predictors of adult offender recidivism: what works! Criminology, 34, 557-607.

[6] Gendreau, P., Little, T. and Goggin, C. (1996). A meta-analysis of the predictors of adult offender recidivism: what works! Criminology, 34, 557-607.

[7] Craig, L. A. and Browne, K. B (2008). Assessing Risk in Sex Offenders: A Practitioner's Guide Paperback.

[8] Ministry of Justice (2017) Proven reoffending statistics: July 2014 to June 2015, London: Ministry of Justice.

[9] Ministry of Justice (2015): Transforming Rehabilitation: a summary of evidence on reducing reoffending. London: Ministry of Justice.

[10] McGuire, J. (2008). A review of effective interventions for reducing aggression and violence. Philosophical Transactions of the Royal Society B: Biological Sciences, 363(1503), 2577-2597

[11] Nash, M. (1999) Police, Probation and Protecting the Public. London: Blackwell Press.

## Risg ail-droseddu:

2.11 Mae'r mater yn ymwneud ag atgwymo a chynnydd mewn cyfraddau trosedd ddifrifol wedi arwain at lu o gyhoeddiadau, theorïau a newidiadau i ddeddfwriaeth gyda llawer yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o brojectau adsefydlu fel ffordd o leihau cyfraddau aildroseddu. Wrth wraidd y gwaith o adsefydlu troseddwyr mae'r cysyniad o anghenion troseddegol. Mae hyn wedi'i ddisgrifio gan y Gwasanaeth Rheolir Troseddwyr Cenedlaethol fel "unrhyw faes y mae gan droseddwr anghenion neu ddiffygion, lle byddai lleihau yn yr angen neu'r diffyg yn arwain at leihad yn y risg aildroseddu. Mae gallu unigolyn i fynd i'r afael ag anghenion o'r fath a'u lleihau'n dibynnu'n drwm ar ei gymhelliad i newid ac ymatal ac yn aml mae hyn yn digwydd dros gyfnod o amser" [13].

2.12 Nododd Kurlychek, yn ei hastudiaeth yn 2007, y "gwelir bod person sydd wedi troseddu yn y gorffennol yn fwy tebygol o droseddu yn y dyfodol, ond mae'r risg o atgwymo hwn ar ei uchaf yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl iddo gael ei arestio neu'i ryddhau o'r carchar ac, ar ôl hynny, yn lleihau'n gyflym wrth iddo heneiddio" [12].

2.13 Canfyddiad cyson a welir mewn llenyddiaeth droseddegol yw bod troseddwyr gwrywaidd yn dueddol i ymatal rhag troseddu ar ôl iddynt droi'n 30 oed ac yn hŷn[13]. Mae tystiolaeth gadarn bod y newid yn digwydd am resymau amrywiol; er enghraifft, o ganlyniad i driniaeth lwyddiannus, aeddfedu'n naturiol neu ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol[15]. Hefyd ystyrir bod troseddwyr benywaidd yn fwy tebygol o ymatal rhag troseddu wrth iddynt aeddfedu. Roedd merched yn troseddu fwyaf yn 14 oed tra roedd dynion yn troseddu fwyaf yn 19 oed[14] .

2.14 Mae ymatal rhag troseddu i bobl sydd wedi bod yn troseddu'n gyson yn broses anodd a chymhleth, sy'n debygol o gynnwys llithro ac atgwympo. Mae'n bosibl na fydd rhai unigolion byth yn ymatal [15] . O ganlyniad, mae'n bwysig bod unigolion yn tystio newid yn eu hymddygiad cyn y gellir ystyried bod risg isel, neu ddim risg o gwbl, y byddant yn aildroseddu. Yn aml yr unig ffordd o gyflawni hyn yw gadael i amser fynd heibio.

2.15 Po fwyaf yr amser sydd wedi mynd heibio ers cyflawni'r trosedd, y mwyaf tebygol y bydd yr unigolyn yn ymatal rhag troseddu. Nodir po fwyaf y caiff bywyd ei fyw heb drosedd, y mwyaf y gwelir manteision ymatal rhagddo[16]. Mae dangos newid mewn ymddygiad troseddol a

[12] Kurlychek, M C, Brame, R (2007). Scarlet letters and recidivism: Does an old criminal record predict future offending? University of South Carolina.

[13] Serin, R, C. and Lloyd, C.D (2008). Examining the process of offender change: the transitions to crime desistance. 347-364. Nash, M. (1999) Police, Probation and Protecting the Public. London: Blackwell Press.

[14] Trueman, C.N. (2015). Women and Crime. The History Learning Site. Ingatestone: Essex.

[15] Farrell, S (2005). Understanding Desistance from Crime: Emerging Theoretical Directions in Resettlement and Rehabilitation (Crime and Justice) Paperback.

[16] Maguire, M., Morgan, R. and Reiner, R. (2002). The Oxford Handbook of Criminology. 3rd Edition. Oxford: Oxford University

gallu i wneud dewisiadau effeithiol yn cymryd amser ac yn dod â rhywfaint o amwysedd i'r rheiny sydd wedi cyflawni troseddau. Daeth astudiaeth yn 2007 oedd yn edrych i mewn i droseddau blaenorol a'r cysylltiadau ag aildroseddu i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod "unigolion sydd wedi troseddu yn y gorffennol pell yn llai tebygol o atgwympo nag unigolion sydd wedi troseddu yn y gorffennol diweddar" [17].

2.16 Er nad yw'n bosibl pennu ymddygiad unigolyn yn y dyfodol, gellir lleihau risg a diogelu'r cyhoedd trwy ddilyn prosesau a chanllawiau cywir. Mae ystyried ymddygiad unigolyn yn y dyfodol a'i botensial i achosi niwed o ganlyniad i'r dewisiadau y mae wedi'u gwneud yn chwarae rhan sylweddol wrth benderfynu a ddylid rhoi trwydded. Bydd gallu tystio newid i ymddygiad yn cynnwys ystyried amgylchiadau ar adeg y trosedd, camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd a gallu'r person hwnnw i gynnal newid o'r fath. Gallai hyn fod yn broses hir y gellir ond ei chyflawni dros amser.

Press.

[17] Kurlychek, M C, Brame, R (2007). Scarlet letters and recidivism: Does an old criminal record predict future offending? University of South Carolina.

# Pennod 3: Trosolwg Trwyddedu 'Tacsis'

3.1 Defnyddir tacsis gan bron bawb yn ein cymdeithas o dro i dro, ond cant eu defnyddio'n rheolaidd gan grwpiau agored i niwed yn benodol: plant, yr henoed, pobl anabl a phobl feddw, ac mae gan yrrwr tacsi bŵer sylweddol dros y teithiwr sy'n ei roi ei hun, a'i ddiogelwch personol yn llwyr yn nwylo'r gyrrwr.

3.2 Mae awdurdodau lleol (ardaloedd, awdurdodau unedol a Chynghorau Cymru) a TfL yn gyfrifol am drwyddedu cerbydau hacni a llogi preifat.

3.3 Y brif ddeddfwriaeth yw Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Manylir ar ddiben trwyddedu tacsis ym mharagraff 8 "*Taxi and Private Hire Licensing – Best Practice Guide*" yr Adran Drafnidiaeth sy'n nodi:

> "*Nod yr awdurdod lleol sy'n trwyddedu'r fasnach tacsi a Cherbydau Llogi Preifat yw diogelu'r cyhoedd.*"

3.4 O fewn y ddwy drefn drwyddedu, mae 5 math o drwydded: cerbyd hacni; cerbyd llogi preifat; gyrrwr cerbyd hacni; gyrrwr cerbyd llogi preifat a gweithredwr cerbyd llogi preifat.

3.5 O ran yr holl drwyddedau hyn, mae gan yr awdurdod y rhyddid i benderfynu a fydd yn rhoi trwydded. Er bod rhai canllawiau wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth, nid oes safonau cenedlaethol.

3.6 Ni ellir rhoi trwydded i yrwyr a gweithredwyr oni bai bod yr awdurdod yn fodlon eu bod yn "addas ac yn briodol" i gael y drwydded honno (gweler Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a51 ac a59 ar gyfer gyrwyr; a55 ar gyfer gweithredwyr).

3.7 Nid oes meini prawf statudol ar gyfer trwyddedau cerbydau; felly, mae gan yr awdurdod ryddid llwyr.

3.8 Ym mhob achos, mae gan yr awdurdod bwerau i roi trwydded, i'w hadnewyddu ar gais ac, yn ystod cyfnod y drwydded, ei diddymu.

3.9 Beth yw rôl pob un o'r rhain, a sut mae awdurdodau'n penderfynu ar gais, neu'r camau i'w cymryd yn erbyn trwydded?

## Gyrwyr Tacsi

3.10 Mae'r term "gyrrwr tacsi" yn cynnwys dwy swydd wahanol: gyrwyr cerbydau hacni a gyrwyr cerbydau llogi preifat. Felly defnyddir 'gyrrwr tacsi' fel term eang cyffredinol ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni a llogi preifat. Ym mhob achos mae meini prawf statudol unfath i'w bodloni cyn y gellir rhoi trwydded ac mae llawer o awdurdodau yn rhoi trwyddedau "deuol" neu "cyfunol" sy'n berthnasol i yrru'r ddau fath o gerbyd.

3.11 Rhaid i ymgeisydd fod â thrwydded yrru DVLA llawn neu drwydded yrru gyfatebol, yr hawl i weithio yn y DU a bod yn berson "addas a phriodol" [18].

3.12 Nid oes unrhyw gyfraith o ran yr elfen drwydded yrru. Er bod rhai problemau gyda thrwyddedau gyrru tramor, yn y pen draw, mae gan berson drwydded yrru neu nid oes gan berson drwydded yrru.

3.13 Hefyd rhaid bod gan ymgeisydd yr hawl i aros, a gweithio yn y DU[19].

3.14 Eto, yn y pen draw, nid oes unrhyw gyfraith o ran hyn a dylai'r awdurdod lleol ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.[20]

3.15 Y mater yn ymwneud â pherson "addas a phriodol" sy'n achosi'r drafferth fwyaf i awdurdodau lleol. Nid yw erioed wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol yn benodol ond soniwyd amdano yn achos *Cyngor Dinas Leeds yn erbyn Hussain*[21]. Dywedodd Silber J:

> "...diben y pŵer gwahardd yw diogelu defnyddwyr cerbydau trwyddedig a'r rheiny a yrrir ganddynt ac aelodau'r cyhoedd. Ei ddiben [a], felly [y prawf ar addasrwydd a phriodoldeb], yw atal trwyddedau rhag cael eu rhoi neu eu defnyddio gan y rheiny nad ydynt yn bobl addas o ystyried eu hanes gyrru, eu profiad gyrru, eu hanes o fod yn sobr, eu ffitrwydd corfforol a meddyliol, eu honestrwydd, a'u bod yn bobl na fyddent yn manteisio ar eu cyflogaeth i gam-drin neu ymosod ar deithwyr."

3.16 Adlewyrchir hyn mewn prawf a ddefnyddir yn eang gan awdurdodau lleol:

> 'Fyddech chi (fel aelod o bwyllgor trwyddedu neu berson arall y rhoddwyd y gallu iddo i roi trwydded yrru cerbyd hacni) yn caniatáu i'ch man neu ferch, gŵr/gwraig neu bartner,

---

[18] Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Mae adran 51(1) yn berthnasol i yrwyr cerbydau llogi preifat ac mae adran 59(1) yn berthnasol i yrwyr cerbydau hacni.

[19] Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 A51(1)(a)(ii) ar gyfer gyrwyr cerbydau llogi preifat ac A59(1)(a)(ii) ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni.

[20] "Guidance for Licensing Authorities to Prevent Illegal Working in the Taxi and Private Hire Sector in England and Wales" - Y Swyddfa Gartref, 1 Rhagfyr 2016 ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/licensing-authority-guide-to-rightto-work-checks

[21] [2002] EWHC 1145 (Admin), [2003] RTR 199

mam neu dad, wŷr neu wyres neu unrhyw berson arall rydych yn gofalu amdano fynd i mewn i gerbyd gyda'r person hwn ar ei ben/ei phen ei hun?'[22]

3.17 Awgrymir bod yr ymadrodd person "diogel ac addas" i gael trwydded yrru yn ddehongliad da nad yw'n ychwanegu nac yn dileu unrhyw beth o'r term gwreiddiol "addas a phriodol" ond yn gwneud y cysyniad yn gyfredol.

3.18 Sut gall awdurdod lleol asesu ac wedyn barnu a yw rhywun yn ddiogel ac yn addas i gael trwydded yrru neu beidio?

3.19 Mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i ofyn i ymgeisydd gyflwyno:

> "gwybodaeth o'r fath y mae'n ystyried yn rhesymol ei bod yn angenrheidiol i'w alluogi i bennu a ddylid rhoi trwydded ac a ddylid atodi amodau at unrhyw drwydded o'r fath".[23]

Gall y "wybodaeth" hon gynnwys unrhyw gyn-amodau neu brofiadau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol.

3.20 Mae rhai o'r rhain yn gyffredinol, megis asesiadau meddygol[24]. Mae angen rhai eraill ar rai awdurdod, ond nid awdurdod eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tystysgrifau GDG manwl a cofrestru ar gyfer y gwasanaeth diweddariadau;
- Profion gwybodaeth;
- Profion gyrru;
- Ymwybyddiaeth Anabledd;
- Datganiadau wedi'u llofnodi;
- Profion Saesneg llafar.

3.21 Gall cyflwyno gwybodaeth o'r fath fodloni'r awdurdod lleol bod gan berson y sgiliau a'r gallu i fod yn yrrwr proffesiynol gyda thrwydded. Fodd bynnag, mae cysyniadau diogelwch ac addasrwydd yn mynd y tu hwnt i hyn. Mae angen ystyried cymeriad y person hefyd.

3.22 Both hackney carriage and private hire drivers are exempt from the provisions of the Rehabilitation of Offenders Act 1974. This means that there are no "spent" convictions and that any and all criminal convictions (apart from "protected convictions" and "protected cautions" where they have been declared[25]) can be taken into account by the local authority in assessing safety and suitability, but only relevant spent convictions should be considered by the decision maker[26].

[22] Button on Taxis – Licensing Law and Practice 4th Ed Bloomsbury Professional ym mhara 10.21
[23] Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a57(1)
[24] Gweler Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a57(2)
[25] Mae "euogfarnau a ddiogelir" a "rhybuddion a ddiogelir" yn hen a mân faterion sengl nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw Dystysgrifiau'r GDG.
[26] Gweler *Adamson v Waveney District Council* [1997] 2 All ER 898

3.23 Dylai fod gofyn i bob Ymgeisydd/Trwyddedai gael Tystysgrif Fanwl y GDG ynghyd â gwiriadau Rhestr Waharddedig[27] a rhoi'r rhain i'r Awdurdod Trwyddedu. Hefyd dylai fod gofyn i bob Trwyddedau gadw ei Dystysgrifau'n gyfredol trwy Wasanaeth Diweddaru'r GDG trwy gydol cyfnod ei drwydded.

3.24 Os yw unrhyw ymgeisydd, o 10 oed, wedi treulio chwe mis olynol neu fyw'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, dylid gofyn am tystiolaeth o wiriad o'i gofnod troseddol gan y wlad/gwledydd yr oedd yn byw ynddo/ynddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

3.25 Dylai fod gan awdurdodau lleol bolisi sy'n cynnig gwaelodlin ar gyfer effaith unrhyw euogfarnau, rhybuddion neu faterion ymddygiad eraill sy'n ymwneud â diogelwch ac addasrwydd person[28].

3.26 Rhaid i gymeriad y gyrrwr yn ei gyfanrwydd fod yn ystyriaeth hollbwysig wrth ystyried a ddylai gael ei drwyddedu. Mae'n bwysig cydnabod nad yw awdurdodau lleol yn cosbi unrhyw euogfarnau neu ymddygiad blaenorol. Maent yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt i wneud penderfyniad cytbwys o ran a yw'r ymgeisydd neu'r trwyddedai, neu a yw'r parhau i fod, yn berson diogel ac addas.

3.27 Mae achlysuron pan fo pobl anaddas wedi cael trwyddedau gan awdurdodau lleol, neu os yw trwydded wedi'i gwrthod iddynt, mae llys wedi rhoi un iddynt ar ôl apelio.

3.28 Yn aml, caledi canfyddedig yw'r rheswm am hyn. Mae cyfraith achosion yn ei gwneud yn amlwg na ddylid ystyried effaith colli (neu beidio â chael) trwydded gyrrwr ar yr ymgeisydd a'i deulu[29]. Wedyn mae hyn yn arwain at gwestiynu a yw'r agwedd a gymerir gan awdurdodau lleol yn ddigon cadarn i gyflawni'r nod cyffredinol hwnnw o ddiogelu'r cyhoedd.

3.29 Fodd bynnag, yn rhy aml mae awdurdodau lleol yn mynd yn groes i'w polisïau ac yn rhoi trwyddedu (neu beidio â chymryd camau yn erbyn trwyddedai) heb resymau clir a chadarn. Mae'n hollbwysig bod Cynghorwyr yn cydnabod mai'r polisi, tra'n parhau i fod yn bolisi ac felly canllawiau'r Awdurdod ei hun ar y mater, yw'r gwaelodlin ar gyfer yr hyn sy'n dderbyniol. Dylid mynd yn groes iddo dim ond mewn amgylchiadau eithriadol neu resymau y gellir eu cyfiawnhau a dylid cofnodi'r rhain.

3.30 Un camddealltwriaeth arall yw na chyflawnwyd y drosedd pan oedd y gyrrwr yn gyrru tacsi, ei bod yn llai difrifol, neu hyd yn oed os oedd mewn tacsi ond heb deithwyr

[27] "At ddibenion Trwyddedu [gyrrwr] tacsi, y lefel wirio gywir bob amser yw y gwiriad Manwl, gyda'r gwiriadu Rhestr Waharddedig Oedolion a Phlant. Dylai Gweithluoedd eraill gael eu cynnwys yn llinell 1 X61 a dylai Trwyddedu Tacsis gael ei gynnwys yn llinell 2 X61" e-bost y GDG 31 Awst 2017.

[28] Fel yr argymhellir *"Taxi and Private Hire Licensing – Best Practice Guide"* yr Adran Drefnidiaeth para 59

[29] *Leeds City Council v Hussain* [2002] EWHC 1145 (Admin), [2003] RTR 199 and *Cherwell District Council v Anwar*[2011] EWHC 2943 (Admin)

ynddo. Nid yw hyn yn berthnasol: mae goryrru'n beryglus, ni waeth y sefyllfa; mae yfed a gyrru'n beryglus, ni waeth y sefyllfa; mae teiars moel yn beryglus, ni waeth y sefyllfa. Mae'r holl ymddygiadau hyn yn rhoi'r cyhoedd mewn perygl. Mae trais bob amser yn ddifrifol. Nid yw'r ddadl mai anghydfod domestig ydoedd, neu i ffwrdd o'r tacsi, yn berthnasol. Mae person sydd â thuedd dreisgar â'r potensial i bod yn dreisgar ymhob sefyllfa. Mae troseddau rhyw bob amser yn ddifrifol. Mae person sydd wedi camfanteisio ar ei sefyllfa (ni waeth beth oedd natur y camfanteisio hwnnw) yn y gorffennol

i gam-drin person arall yn rhywiol wedi dangos safonau ymddygiad cwbl annerbyniol.

3.31 Gall ymgeiswyr hawlio eu bod wedi ceisio cyflogaeth mewn meysydd eraill ac wedi cael eu gwrthod oherwydd eu gorffennol, yn benodol os yw hynny'n cynnwys euogfarnau. Felly, maent yn ceisio bod yn yrrwr trwyddedig fel eu dewis olaf o alwedigaeth. Mae hyn yn annerbyniol oherwydd y byddai rhoi trwydded yn rhoi'r fath berson mewn swydd gyfrifol unigryw. Cyfrifoldeb hollbwysig awdurdod trwyddedu yw diogelu'r cyhoedd, nid cynnig cyfleoedd cyflogaeth.

3.32 Disgwylir i drwyddedigion ymddwyn yn briodol ac yn broffesiynol ar bob adeg, boed hynny yn ystod eu gwaith neu fel arall. Dylai trwyddedigion fod yn gwrtais, osgoi gwrthdaro, ymatal rhag sarhau a pheidio â dangos rhagfarn mewn unrhyw ffordd. Ni ddylai trwyddedeion, mewn unrhyw amgylchiadau, gymryd y gyfraith i'w dwylo eu hunain. Disgwylir i drwyddedeion weithredu gydag uniondeb ac ymddwyn mewn modd sy'n briodol o ystyried yr ymddiriedaeth a roddir ynddynt.

3.33 Ceir pobl sy'n manteisio ar bobl agored i niwed trwy ddarparu gwasanaethau nad oes hawl ganddynt i'w darparu; er enghraifft, trwy geisio cael cwsmeriaid mewn ardal nad oes hawl ganddynt wneud hynny ynddi. Disgwylir i drwyddedigion fod yn ofalus o ymddygiad o'r fath a rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Heddlu a'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Dylai teithwyr deimlo'n hyderus i wirio bod gan yr person sy'n cynnig gwasanaeth hawl i wneud hynny. Dylai trwyddedigion ddangos yn fodlon bod hawl ganddynt i ddarparu'r gwasanaeth a gynigir gan ddangos eu bathodyn er enghraifft.

3.34 Fel cymdeithas, mae angen i ni ofyn y cwestiwn "pwy sy'n gyrru fy nhacsi?" a gwybod yn sicr mai'r ateb yw "person diogel ac addas". Mae'r rhan fwyaf o yrwyr yn bobl barchus sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n gweithio'n galed iawn i ddarparu gwasanaeth da i'w cwsmeriaid a'r gymuned. Fodd bynnag, mae penderfyniadau gwael gan awdurdodau lleol a llysoedd yn gallu tanseilio ffydd y cyhoedd sy'n teithio yn y fasnach yn ei chyfanrwydd. Oni bai bod awdurdodau lleol a'r llysoedd yn barod i wneud penderfyniadau cadarn (ac anodd) i gynnal y safonau mae'r awdurdod lleol yn eu gosod, ac mewn rhai achosion tynhau eu polisïau eu hunain, ni all y cyhoedd gael ffydd go iawn mewn gyrwyr tacsis. Mae hyn yn wael i bawb.

## Gweithredwyr Llogi Preifat

3.35 Mae gweithredwr llogi preifat ("GLlP") yn berson sy'n cymryd archebion am gerbyd llogi preifat ("CLlP") ac wedyn yn anfon CLlP a yrrir gan yrrwr cerbyd llogi preifat ("GCLlP") i gyflawni'r archeb honno. Rhaid i'r un awdurdod roi'r tair trwydded (GLlP, CLlP a GCLlP)[30]. Ni all awdurdod lleol roi trwydded GLlP oni bai bod gan yr ymgeisydd yr hawl i weithio yn y DU a'i fod yn berson addas a phriodol[31].

3.36 Yn yr un modd â gyrwyr tacsis mae rôl GLlP yn fwy na dim ond cymryd archebion ac anfon cerbydau. Wrth wneud archebion ac anfon y cerbyd a'r gyrrwr, bydd y GLlP yn cael symiau sylweddol o wybodaeth bersonol. Felly mae'n hollbwysig bod GLlP mor ddibynadwy â gyrrwr, er ei rôl eithaf pell. Gellir archebu cerbydau hacni o flaen llaw hefyd ond dylai awdurdodau lleol fod yn ofalus pan fod unrhyw un heblaw am yrrwr cerbyd hacni'n archebu gan fod nad oes rheoliadau neu weithdrefnau gwirio ar waith yn yr achos hwn mewn perthynas â'r person sy'n archebu ac sydd â'r wybodaeth bersonol honno.

3.37 Sut wedyn mae awdurdod lleol yn bodloni ei hun ar "addasrwydd a phriodoldeb" neu "ddiogelwch ac addasrwydd" yr ymgeisydd neu'r trwyddedai?

Gellir ystyried collfarnau wedi'u disbyddu wrth bennu addasrwydd am drwydded, ond gellir gofyn i'r ymgeisydd (neu drwyddedai os yw'n adnewyddu) gael Datgeliad Sylfaenol yn unig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.39 Er nad yw hon yn system berffaith ar unrhyw gyfrif, mae'n rhoi sail resymol i awdurdodau lleol er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys ar addasrwydd a phriodoldeb ymgeisydd neu drwyddedai cyfredol.

3.40 Er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau cyson a chytbwys, mae'n bwysig cael prawf sy'n gweithio o addasrwydd a phriodoldeb GLlP a gellir defnyddio amrywiad addas o'r prawf i yrwyr:

> "*Would I be comfortable providing sensitive information such as holiday plans, movements of my family or other information to this person, and feel safe in the knowledge that such information will not be used or passed on for criminal or unacceptable purposes*?"[32]

3.41 Mae pwynt arall i'w ystyried mewn perthynas â GLlP ac sy'n pryderu'r staff sy'n gweithio ar y ffonau a'r radios. Nid oes rheswm dros beidio â gallu gosod amod ar drwydded GLlP yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wirio'r bobl y maent yn eu cyflogi/defnyddio o fewn eu cwmni i fodloni eu hunain eu bod yn bobl addas a phriodol i gyflawni'r dasg honno a chadw'r

[30] Gweler *Dittah v Birmingham City Council, Choudhry v Birmingham City Council* [1993] RTR 356 QBD
[31] Adran 55(1) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
[32] Button on Taxis – Licensing Law and Practice 4th Ed Bloomsbury Professional ym mhara 12.35

wybodaeth honno i ddangos y gydymffurfiaeth honno â'r awdurdod lleol. Wedyn byddai methiant y GLlP i naill ai gydymffurfio â'r gofyniad hwn, neu i weithredu ar wybodaeth y mae'n ei chael
(a thrwy hynny'n galluogi staff anaddas i weithio mewn swyddi cyfrifol), yn cael goblygiadau difrifol ar addasrwydd a phriodoldeb parhaol y GLlP.

3.42 Dylid bod yn ofalus pan geir cais GLlP yn enw cwmni cyfyngedig, partneriaeth neu strwythur busnes arall y gwneir yr holl ofynion sy'n berthnasol i ymgeisydd unigol yn berthnasol i bob cyfarwyddwr neu bartner y sefydliad sy'n gwneud cais[33]. Dim ond trwy wneud hynny y gellir gwneud penderfyniad ar addasrwydd a phriodoldeb yr endid gweithredu.

## Perchenogion Cerbydau

3.43 Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i berchenogion cerbydau, cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat (y cyfeirir atynt yma'n gyffredinol fel "tacsis"). Er nad yw perchennog y cerbyd yn gyrru'r cerbyd o bosibl (ac os yw yn ei yrru, bydd yn destun ei brawf addasrwydd a phriodoldeb ei hun i gael trwydded yrru), yn glir mae ganddo fuddiant yn y defnydd o'r cerbyd. Hefyd bydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cerbyd, ac mae cerbydau na chânt eu cynnal yn iawn yn cael effaith glir ar ddiogelwch y cyhoedd.

3.44 Defnyddir tacsis i gludo pobl mewn llawer o amgylchiadau, ac fe'u gwelir ymhobman ledled y Deyrnas Unedig, ar bob adeg o'r dydd a'r nos, mewn unrhyw leoliad. Felly, gallai tacsis ddarparu system gludo ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon neu unrhyw ffurf o nwyddau gwaharddedig, boed hynny'n gyffuriau, gynnau, alcohol neu dybaco anghyfreithlon, neu bobl sydd â rhan yn, neu sy'n ddioddefwyr o, weithgarwch anghyfreithlon, neu blant a allai fod mewn perygl o gael, neu sy'n cael, eu cam-drin neu'u camfanteisio.

3.45 Mewn perthynas â cherbydau hacni a llogi preifat, mae'r awdurdod lleol â'r rhyddid llwyr i roi'r drwydded[34] a dylai sicrhau felly bod eu hymholiadau a'u hystyriaethau'n gadarn. Mae llawer mwy i'w wneud na dim ond yn edrych ar y cerbyd ei hun ac mae'r un mor berthnasol i geisiadau i drosglwyddo cerbyd ag y mae i geisiadau i gael trwydded.

3.46 Eto, nid yw hon yn alwedigaeth a eithrir at ddibenion Deddf 1874, ond rhoddir yr un broses a ddefnyddir ar gyfer gweithredwyr llogi preifat ar waith - GDG Sylfaenol, datganiad statudol ac ystyriaeth o gollfarnau wedi'u disbyddu. Wedyn gellir defnyddio hyn gan ystyried polisi tebyg mewn perthynas ag addasrwydd sydd eisoes gan yr awdurdod ar gyfer gyrwyr â GLlP.

[33] Gweler a57(1)(c) Deddf 1976.
[34] A37 Deddf 1847 mewn perthynas â cherbydau hacni; adran 48 Deddf 1976 i gerbydau llogi preifat.

3.47 Byddai prawf addas fel a ganlyn:

> "A fyddwn yn gyfforddus yn caniatáu i'r person hwn gael rheolaeth dros gerbyd trwyddedig a all deithio i unrhyw le, ar unrhyw adeg yn ystod y dydd neu gyda'r nos heb godi amheuon, a bod yn fodlon na fyddai ef/hi yn caniatáu iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion troseddol neu annerbyniol eraill, a bod yn hyderus y byddai ef/hi yn ei gadw at safon dderbyniol gydol cyfnod y drwydded?"[35]

[35] Button on Taxis – Licensing Law and Practice 4th Ed Bloomsbury Professional ym mhara 8.98

# Pennod 4: Canllaw ar Bennu

4.1 Fel y nodir yn y drosolwg o Droseddwyr a Throseddu uchod, nid oes tystiolaeth a all roi cyfnodau o amser penodol y mae'n rhaid iddynt fynd heibio ar ôl trosedd cyn i berson beidio â chael ei ystyried mwyach yn berson sy'n mewn risg o ail-droseddu, ond mae'r risg yn lleihau dros amser. O ystyried hyn, bwriad yr amserlenni arfaethedig yw lleihau'r risg i'r cyhoedd i lefel dderbyniol.

4.2 Mae llawer o aelodau o'n cymdeithas yn defnyddio, a hyd yn oed yn dibynnu ar, gerbydau hacni neu gerbydau llogi preifat sy'n darparu gwasanaethau trafnidiaeth. Gallai hyn fod yn rheolaidd, neu ddim ond yn achlysurol, ond ym mhob achos, rhaid bod gan deithwyr, defnyddwyr y ffordd a'r gymdeithas fel cyfanwaith ffydd yn niogelwch ac addasrwydd y gyrrwr, y cerbyd ei hun ac unrhyw un sy'n rhan o'r broses archebu.

4.3 Yn ddelfrydol, byddai pob person sy'n ymwneud â'r masnachau cerbyd hacni a llogi preifat (gyrwyr cerbydau hacni a llogi preifat a pherchenogion cerbydau hacni a llogi preifat a gweithredwyr llogi preifat) yn bersonau â'r integriti uchaf. Mewn llawer o achosion mae hynny'n wir, ac mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymwneud â'r masnachau hyn yn unigolion parchus ac onest sy'n gweithio'n galed. Yn anffodus, fel sy'n digwydd mewn unrhyw alwedigaeth neu fasnach, ceir y rheiny sy'n methu â chydymffurfio â'r safonau hynny.

4.4 Diben y ddogfen hon yw cynnig arweiniad ar sut y gall awdurdodau trwyddedu bennu a yw person penodol yn ddiogel ac addas naill ai i gael trwydded yn y lle cyntaf neu i gadw trwydded o'r fath. Fel yr amlinellir uchod, gall polisi fod yn gadarn a chaiff pob achos ei ystyried yn ôl ei deilyngdodau ei hyn gan ystyried y polisi hwnnw.

## Gofynion Cyn-Ymgeisio

4.5 Mae hawl gan awdurdodau trwyddedu i bennu eu gofynion cyn-ymgeisio eu hunain. Bydd y rhain yn amrywio yn dibynnu ar fath y drwydded dan sylw ond gallant gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol (nid yw'r rhain yn rhestri cynhwysfawr):

### Cerbydau:

- Gwiriadau GDG sylfaenol;
- Manylebau e.e. nifer lleiaf y drysau, maint lleiaf y seddi, maint i'r pen, maint y cist ac ati;
- Profion mecanyddol a phrofion cynnal a chadw'r cerbyd e.e. seddi wedi'u rhwygo ac ati;
- Cyfyngiadau ar allyriadau/cyfyngiadau ar oedran cerbydau;
- Gofynion hygyrchedd cadeiriau olwyn.

Gyrwyr:

- Gwiriadau GDG manwl gyda gwasanaeth cyfredol;
- Caiff cronfa ddata'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol eu gwneud ar drwyddedau cerbydau hacni a llogi preifat sydd wedi'u gwrthod a'u diddymu (pan fônt ar gael);
- Gwiriadau iechyd;
- Gwybodaeth o'r ardal ddaearyddol;
- Profion Saesneg ysgrifenedig a llafar;
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd;
- Hyfforddiant camfanteisio'n rhywiol ar blant a diogelu.

Gweithredwyr:

- Gwiriadau GDG sylfaenol;
- Manylion o'u gweithdrefnau archwilio hanes staff; Gwybodaeth o'r ardal drwyddedu.

4.6 Mewn perthynas â phob un o'r trwyddedu hyn, mae gan yr awdurdod trwyddedu ryddid i benderfynu a fydd yn rhoi trwydded neu beidio.

4.7 Ni ellir rhoi trwydded i yrwyr a gweithredwyr oni bai bod yr awdurdod yn fodlon eu bod yn "addas ac yn briodol" i ddal y drwydded honno (gweler Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a51 ac a59 ar gyfer gyrwyr; a55 ar gyfer gweithredwyr).

4.8 Nid oes unrhyw feini prawf statudol ar gyfer trwyddedau cerbydau, felly mae gan yr awdurdod y rhyddid pennaf i ddewis rhoi trwydded perchennog cerbyd hacni neu logi preifat.

4.9 Ystyr "addas a phriodol" yw bod yr unigolyn (neu yn achos trwydded gweithredwr llogi preifat, y cwmni cyfyngedig ynghyd â'i gyfarwyddwyr a'i ysgrifennydd, neu bob aelod o bartneriaeth[36]) yn "ddiogel ac yn addas" i gael y drwydded.

4.10 Wrth asesu diogelwch ac addasrwydd, mae gan yr awdurdod trwyddedu yr hawl i ystyried pob mater sy'n ymwneud â'r ymgeisydd neu'r trwyddedai hwnnw. Nid ymddygiad y person wrth weithio yn y maes hacni neu logi preifat yn unig sydd o bwys iddynt. Mae'r ystyriaeth hon yn llawer ehangach nag euogfarnau troseddol neu dystiolaeth arall o ymddygiad annerbyniol, a chaiff cymeriad cyfan yr unigolyn ei ystyried. Gall hyn gynnwys agwedd a natur yr unigolyn, ymhlith nodweddion eraill.

[36] Mae adran 57(2)(c) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn galluogi awdurdod lleol i ystyried cymeriad cyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni, neu unrhyw bartner.

4.11 Caiff euogfarnau am gynllwynio neu ymgais i gynllwynio eu hystyried yn euogfarnau am y drosedd wirioneddol. Ystyrir rhybudd yn union yr un ffordd ag euogfarn[37]. Caiff cosbau penodedig a chosbau cymunedol eu hystyried hefyd yn yr un ffordd ag euogfarn[38].

4.12 Mae'n bwysig cydnabod y gall yr awdurdod trwyddedu barhau i ystyried y materion nad ydynt wedi arwain at euogfarn droseddol (boed hynny o ganlyniad i ryddfarn, dileu euogfarn, penderfynu peidio ag erlyn neu ymchwiliad sy'n parhau lle mae'r unigolyn wedi'i fechnïo). Yn ogystal, ystyrir cwynion nad oedd yr heddlu'n ymwneud â nhw. Yn y ddogfen hon, bydd unrhyw gyfeiriad at "euogfarn" hefyd yn cynnwys materion a ystyrir yn ymddygiad troseddol ond nad ydynt wedi arwain at euogfarn.

4.13 Yn achos unrhyw ymgeisydd newydd sydd wedi cael ei gyhuddo o dramgwydd ac sy'n aros am brawf, caiff y penderfyniad ei ohirio nes bod y prawf wedi dod i ben neu fod y cyhuddiad wedi'i dynnu yn ôl. Os cyhuddir trwyddedai presennol, cyfrifoldeb yr awdurdod trwyddedu fydd penderfynu pa gamau i'w cymryd o ystyried y canllawiau hyn.

4.14 Ym mhob achos, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried yr euogfarn neu'r ymddygiad dan sylw a pha bwys y dylid ei roi iddi/iddo, a chaiff pob achos ei asesu yn ôl ei deilyngdod ei hun ac o ystyried y canllawiau hyn.

4.15 Bydd unrhyw dramgwyddau a gyflawnir, neu ymddygiad annerbyniol yr adroddir amdano wrth yrru cerbyd hacni neu gerbyd llogi preifat, ynglŷn â'r defnydd o gerbyd hacni neu logi preifat, neu mewn perthynas â gweithredwr cerbyd llogi preifat, yn cael eu hystyried yn nodweddion gwaethygol, ac ni fydd y ffaith nad oedd unrhyw dramgwyddau eraill yn ymwneud â'r maes hacni neu logi preifat yn cael eu hystyried yn ffactorau lliniarol.

4.16 Gan y bydd yr awdurdod trwyddedu'n edrych ar yr unigolyn yn ei gyfanrwydd, mewn llawer o achosion ni chaiff diogelwch ac addasrwydd eu pennu gan gyfnod penodol o amser sydd wedi mynd heibio ar ôl euogfarn neu gwblhau dedfryd. Mae cyfnodau amser yn ystyriaethau perthnasol a phwysig, ond nid yr unig ffactor pennu ydynt.

4.17 Yn ogystal â natur y tramgwydd neu ymddygiad arall, bydd nifer y materion a'r cyfnod y'u cyflawnwyd drosto hefyd yn cael eu hystyried. Mae patrymau o ymddygiad annerbyniol neu droseddol ailadroddus yn debygol o beri mwy o bryder na digwyddiadau untro. Gall patrymau ddangos tueddiad am y fath ymddygiad neu droseddu.

4.18 Ni fydd gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr a thrwyddedeion unrhyw euogfarnau ac wrth gwrs dyna'r sefyllfa ddelfrydol. O ran pobl eraill, derbynnir bod bodau dynol yn gwneud camgymeriadau ac yn methu o ran eu hymddygiad am sawl rheswm, a derbynnir hefyd bod

[37] Mae hyn gan y gellir rhoi rhybudd dim ond ar ôl i'r person ddatgan ei fod yn euog, sy'n gyfateb i bledio'n euog wrth gael ei erlyn.

[38] Mae hyn gan fod talu cosb benodedig yn nodi bod y person yn derbyn ei fod yn euog, a gellir gosod datrysiad cymunedol dim ond ar ôl i'r person ddatgan ei fod yn euog.

llawer yn dysgu o'r profiad heb gyflawni rhagor o dramgwyddau. O ystyried hyn, mae'n bosibl mewn llawer o achosion na fydd euogfarn untro, yn benodol os cafodd y tramgwydd ei gyflawni cryn amser yn ôl, yn atal rhoi neu adnewyddu trwydded.

4.19 Os rhoddir trwydded, mae hefyd yn bwysig cydnabod y bydd gofyniad parhaus i'r trwyddedai gynnal ei ddiogelwch a'i addasrwydd. Mae gan yr awdurdod trwyddedu'r pwerau i weithredu yn erbyn deiliad pob math o drwydded (gyrrwr, cerbyd a gweithredwr) ac mae'n rhaid deall y bydd unrhyw euogfarnau neu gamau eraill gan y trwyddedai a fyddai wedi'i atal rhag cael trwydded wrth ymgeisio y tro cyntaf yn arwain at ddiddymu'r drwydded honno.

4.20 Bydd unrhyw anonestrwydd gan unrhyw ymgeisydd neu rywun ar ran yr ymgeisydd y darganfyddir iddo ddigwydd mewn unrhyw ran o'r broses ymgeisio (e.e. methu datgan euogfarnau, enwau neu gyfeiriadau ffug, cyfeiriadau ffug) yn arwain at wrthod trwydded neu, os ydyw wedi'i rhoi eisoes, ei diddymu a gallai arwain at erlyniad.

4.21 Gan fod yr effaith uniongyrchol ar y cyhoedd yn amrywio gan ddibynnu ar y math o drwydded y gwnaed cais amdano, mae angen ystyried effaith tramgwyddau penodol ar y trwyddedau hynny ar wahân. Fodd bynnag, mae nifer o brif ystyriaethau a fydd yn berthnasol ym mhob amgylchiad.

4.22 Yn gyffredinol, pan fo mwy nag un euogfarn gan rywun, bydd hyn yn codi cwestiynau difrifol am ddiogelwch ac addasrwydd y person hwnnw. Mae'r awdurdod trwyddedu'n chwilio am unigolion diogel ac addas, ac unwaith y sylwir ar batrwm neu dueddiad i ad-droseddu, ni chaiff trwydded ei rhoi neu'i hadnewyddu.

4.23 Os caiff ymgeisydd/trwyddedai ei farnu'n euog o dramgwydd na nodir yn y canllawiau hyn, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried yr euogfarn honno ac yn defnyddio'r canllawiau hyn i gael syniad o'r weithdrefn i'w defnyddio.

4.24 Nid yw'r canllawiau hyn yn disodli dyletswydd yr awdurdod trwyddedu i wrthod rhoi trwydded os nad yw'n fodlon bod yr ymgeisydd neu'r trwyddedai'n berson addas a phriodol. Os ceir sefyllfa nad ymdrinnir â hi yn y canllawiau hyn, bydd rhaid i'r awdurdod ystyried y mater yn unol â'r egwyddorion cyntaf ac asesu addasrwydd a phriodoldeb yr unigolyn.

## Gyrwyr

4.25 Gan fod y meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid rhoi neu gadw trwydded gyrrwr cerbyd hacni i unigolyn yn union yr un peth â'r meini prawf ar gyfer trwydded yrrwr llogi preifat, caiff y ddwy eu hystyried gyda'i gilydd.

4.26 Mae gan yrrwr gyfrifoldeb uniongyrchol am ddiogelwch ei deithwyr, cyfrifoldeb uniongyrchol am ddiogelwch defnyddwyr eraill y ffordd a rheolaeth sylweddol ar deithwyr sydd yn y

cerbyd. Oherwydd y gallai'r teithwyr hynny fod ar eu pennau eu hunain a gallent hefyd fod yn agored i niwed, bydd unrhyw euogfarnau neu achosion o ymddygiad annerbyniol yn y gorffennol yn milwrio yn erbyn rhoi neu gadw trwydded.

4.27 Fel y nodir uchod, os oes gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn sy'n dangos patrwm neu dueddiad, ni waeth faint o amser sydd wedi mynd heibio, bydd angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cwestiwn a yw'n berson addas a phriodol.

4.28 O ran euogfarnau untro, dylai'r cyfnodau amser canlynol fynd heibio ar ôl cwblhau'r ddedfryd (neu ddyddiad yr euogfarn os rhoddwyd dirwy) cyn rhoi trwydded.

### Troseddau sy'n arwain at farwolaeth

4.29 Os yw ymgeisydd neu drwyddedai wedi cael ei farnu'n euog o drosedd a achosodd farwolaeth person arall neu y bwriedid iddo achosi marwolaeth neu anaf difrifol i berson arall, ni chaiff ei drwyddedu.

### Cam-fanteisio

4.30 Os yw ymgeisydd neu drwyddedai wedi'i farnu'n euog o drosedd sy'n cynnwys, yn ymwneud â neu'n gysylltiedig â cham-drin, cam-fanteisio neu gamddefnyddio unigolyn arall, ni waeth a oedd y dioddefwr neu'r dioddefwyr yn oedolion neu'n blant, ni chaiff ei drwyddedu. Mae hyn yn cynnwys caethwasiaeth, camfanteisio'n rhywiol ar blant, meithrin perthnasau amhriodol ar-lein, a cham-drin seicolegol, emosiynol neu ariannol, ond nid rhestr gynhwysfawr yw hon.

### Tramgwyddau treisgar

4.31 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o dramgwydd treisgar, neu ei fod yn ymwneud ag unrhyw dramgwydd treisgar, ni roddir trwydded tan o leiaf 10 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

### Meddu ar arf

4.32 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o feddu ar arf neu unrhyw dramgwydd arall sy'n ymwneud ag arf, ni roddir trwydded tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

### Tramgwyddau rhyw ac anwedduster

4.33 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o unrhyw dramgwydd sy'n ymwneud neu sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhyw anghyfreithlon neu unrhyw fath o anwedduster, ni chaiff trwydded ei rhoi.

4.34 Yn ogystal â'r uchod, ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhywiol neu unrhyw restr 'waharddedig'.

### Anonestrwydd

4.35 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o unrhyw dramgwydd anonestrwydd, neu unrhyw dramgwyddau y mae anonestrwydd yn elfen ohonynt, ni roddir trwydded tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

### Cyffuriau

4.36 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o gyflenwi cyffuriau, neu feddu gyda'r bwriad i gyflenwi neu sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau neu feddu gyda'r bwriad i gyflenwi, ni roddir trwydded tan o leiaf 10 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

4.37 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o feddu ar gyffuriau neu dramgwydd sy'n ymwneud â meddu ar gyffuriau, ni roddir trwydded tan o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd rhaid hefyd i ymgeisydd gael prawf cyffuriau ar ei draul ei hun er mwyn dangos nad yw'n defnyddio cyffuriau rheoledig.

### Gwahaniaethu

4.38 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o dramgwydd sy'n ymwneud neu sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu o unrhyw fath, ni roddir trwydded tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

### Euogfarnau moduro

4.39 Gyrwyr proffesiynol yw gyrwyr cerbydau hacni a llogi preifat sy'n gyfrifol am gludo'r cyhoedd. Mae unrhyw euogfarn foduro yn dangos diffyg proffesiynoldeb a chaiff ei hystyried o ddifrif. Derbynnir y gellir cyflawni tramgwyddau'n anfwriadol, ac ni fyddai mân dramgwydd untro yn atal rhoi trwydded neu efallai na fyddai'n arwain at weithredu yn erbyn trwydded gyfredol. Mae euogfarnau dilynol yn atgyfnerthu'r ffaith nad yw'r trwyddedai'n cymryd ei gyfrifoldebau proffesiynol o ddifrif ac felly nad yw'n berson diogel ac addas i'r awdurdod trwyddedu roi neu gadw trwydded yn ei enw.

### Yfed a gyrru/gyrru dan ddylanwad cyffuriau/defnyddio ffôn symudol neu declyn llaw wrth yrru

4.40 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o yfed a gyrru neu yrru dan ddylanwad cyffuriau, ni roddir trwydded tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd neu waharddiad gyrru a

roddwyd. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd rhaid hefyd i ymgeisydd gael prawf cyffuriau ar ei draul ei hun er mwyn dangos nad yw'n defnyddio cyffuriau rheoledig.

4.41 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o ddefnyddio ffôn symudol a ddelir yn y llaw neu declyn llaw wrth yrru, ni roddir trwydded tan o leiaf 5 mlynedd ar ôl yr euogfarn neu i unrhyw ddedfryd neu waharddiad gyrru ddod i ben, p'un bynnag yw'r hwyraf.

### Tramgwyddau moduro eraill

4.42 Mân dramgwydd traffig neu gerbyd yw un lle na chaiff unrhyw un ei ladd ond sy'n ymwneud â gyrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, neu yrru wrth ddefnyddio ffôn symudol ac nad yw wedi achosi anaf i unrhyw berson na difrod i unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Os oes gan ymgeisydd 7 neu fwy o bwyntiau ar ei drwydded DVLA oherwydd mân dramgwyddau traffig neu dramgwyddau tebyg, ni roddir trwydded tan o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

4.43 Tramgwydd traffig neu gerbyd mawr yw un nad ymdrinnir ag ef uchod a hefyd unrhyw dramgwydd a achosodd anaf i unrhyw berson neu ddifrod i unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Mae hefyd yn cynnwys gyrru heb yswiriant neu unrhyw dramgwydd sy'n gysylltiedig ag yswiriant moduro. Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o dramgwydd traffig mawr neu dramgwydd tebyg, ni roddir trwydded tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

### Tramgwyddau cerbydau hacni a llogi preifat

4.44 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o dramgwydd sy'n ymwneud neu sy'n gysylltiedig â cherbydau hacni neu logi preifat (ac eithrio defnyddio cerbydau), ni roddir trwydded tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

### Tramgwyddau defnydd cerbyd

4.45 Os yw ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o dramgwydd a oedd yn ymwneud neu'n gysylltiedig â'r defnydd o gerbyd (gan gynnwys cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat), ni roddir trwydded tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd.

## Gweithredwyr Llogi Preifat

4.46 Nid oes gan weithredwr llogi preifat ("gweithredwr") gyfrifoldeb uniongyrchol am ddiogelwch teithwyr, defnyddwyr eraill y ffordd na chysylltiad uniongyrchol â theithwyr sydd yn y cerbyd llogi preifat (oni bai ei fod wedi'i drwyddedu hefyd fel gyrrwr llogi preifat). Fodd bynnag, wrth gyflawni ei ddyletswyddau mae'n cael ac yn dal cryn dipyn o wybodaeth bersonol a phreifat

am ei deithwyr y mae'n rhaid i hon gael ei thrin yn gyfrinachol heb iddi gael ei datgelu i bobl eraill na chael ei defnyddio gan y gweithredwr neu ei staff at ddibenion troseddol neu ddibenion annerbyniol eraill.

4.47 Fel y nodir uchod, os oes gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn, bydd angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cwestiwn a yw'n berson addas a phriodol.

4.48 Rhaid i weithredwyr sicrhau bod unrhyw staff a ddefnyddir yn y busnes (boed yn gyflogeion neu'n gontractwyr annibynnol) ac sy'n gallu cael hyd i unrhyw wybodaeth fel y disgrifiwyd uchod yn cyrraedd yr un safonau â'r gweithredwr ei hun. Gellir gwneud hyn trwy'r gweithredwr yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod unigol o staff gael tystysgrif GDG sylfaenol. Os darganfyddir nad yw gweithredwr yn cynnal y safonau gofynnol a'i fod yn defnyddio staff nad ydynt yn bodloni meini prawf cyffredinol yr awdurdod trwyddedu, caiff trwydded y gweithredwr ei diddymu.

4.49 Gan fod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn niogelwch ac uniondeb cyffredinol y system llogi preifat yn hollbwysig, bydd yr un safonau'n cael eu gosod i weithredwyr ag i yrwyr, fel yr amlinellwyd uchod.

## Perchnogion Cerbydau

4.50 Mae gan berchnogion cerbydau (cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat) ddau brif gyfrifoldeb.

4.51 Yn gyntaf, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gynnal i safon dderbyniol ar bob adeg.

4.52 Yn ail, rhaid iddynt sicrhau na chaiff y cerbyd ei ddefnyddio at ddibenion anghyfreithlon nac anghyfreithiol.

4.53 Fel y nodir uchod, os oes gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn, bydd angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cwestiwn a yw'n berson addas a phriodol i gael neu gadw trwydded gerbyd.

4.54 Gan fod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn niogelwch ac uniondeb cyffredinol y system llogi preifat yn hollbwysig, bydd yr un safonau'n cael eu gosod i berchnogion ag i yrwyr, fel yr amlinellwyd uchod.

# Cydnabyddiaethau

Ym mis Rhagfyr 2015, sefydlwyd yr Institute of Licensing weithlu i edrych ar greu canllawiau model neu safonol mewn perthynas ag asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded mewn perthynas â gyrwyr tacsis, gweithredwyr a pherchenogion cerbydau, gan ystyried cymeriad yr ymgeisydd neu’r trwyddedai.

Roedd y grŵp project craidd yn cynnwys:

- Stephen Turner, Cyfreithiwr yng Nghyngor Dinas Hull, Arweinydd Trwyddedu Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol ac Is-gadeirydd IoL Rhanbarth y Gogledd-ddwyrain (Cadeirydd y Grŵp Project)
- Jim Button, Cyfreithiwr yn James Button & Co a Llywydd IoL
- Philip Kolvin QC, Cornerstone Barristers a Noddwr IoL
- John Miley, Rheolwr Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Broxtowe, Cadeirydd Cenedlaethol NALEO ac Is-gadeirydd IoL Rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Linda Cannon, cyn Reolwr Trwyddedu Cynghorau Basingstoke & Deane a Hart, a bellach yn ymgynghorydd allanol trwyddedu preifat a Chadeirydd IoL Rhabarth y De-ddwyrain
- Phil Bates, Rheolwr Trwyddedu Cyngor Dinas Southampton
- Sue Nelson, Swyddog Gweithredol IoL

Mae’r Canllaw hwn yn ganlyniad i waith tîm y project ac yn cynnwys ystyriaeth o hanes ymgeisydd neu ddeiliad trwydded a’i berthnasedd i’w ‘gymeriad’ yn ogystal ag ystyriaeth o wybodaeth ynghylch tramgwyddau, rhybuddion a dim euogfarnau.

Mae’r Institute yn falch bod y Gymdeithas Lywodraeth Leol, the National Association of Licensing and Enforcement Officers a Lawyers in Local Government yn cyfrannu at y project hwn gydag IoL ac yn ei gefnogi.

Mae'r Sefydliad hefyd yn ddiolchgar i bobl eraill sydd wedi cyfrannu at waith grŵp y project, gan gynnwys y cyn swyddog prawf Hannah Jones (bellach yn Swyddog Tai yng Nghyngor Sir y Fflint) a gynorthwyodd y grŵp i greu y pennod ar 'Troseddwyr a Throseddu'.

Mae'r project hwn wedi'i gyfoethogi gan gyfraniadau gwerthfawr gan yr unigolion a sefydliadau canlynol:

- Ellie Greenwood a Rebecca Johnson, Cymdeithas Lywodraeth Leol
- Tim Briton, Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol
- Ben Atrill
- Suzy Lamplugh Trust
- Y Cynghorydd Richard Wright, Cyngor Dosbarth North Kesteven
- Athro Troseddeg, Fiona Measham, Prifysgol Dyrham
- Y Cynghorydd Philip Evans, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Y Cynghorwyr Catriona Morris a Mick Legg, Cyngor Milton Keynes
- Louise Scott Garner
- Jenna Parker, Institute of Licensing

Yn olaf, diolch i bawb a ymatebodd i'r arolwg ffeithiau cychwynnol a'r ymgynghoriad ar ôl hynny ar y canllawiau drafft.

Institute of Licensing
Tŷ Egerton
2 Tower Road
Penbedw
CH41 1FN
Ff: 0151 650 6984
E: info@instituteoflicensing.org

Mae'r Institute of Licensing (IoL) yn gorff proffesiynol ar gyfer ymarferwyr trwyddedu ledled y DU www.instituteoflicensing.org

Y Gymdeithas Lywodraeth Leol (CLlL) yw llais cenedlaethol llywodraeth leol. www.local.gov.uk

Lawyers in Local Government (LLG). www.lawyersinlocalgovernment.org

National Association of Licensing and Enforcement Officers (NALEO). www.naleo.org.uk

# DATGANIAD POLISI YNGLŶN AG ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWYDDEDEION YN Y MASNACHAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

DRAFT

**20/08/2021 - Drafft**

# DATGANIAD POLISI YNGLŶN AG ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWYDDEDEION YN Y MASNACHAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

**Cynnwys**


| Pennod | Disgrifiad o'r Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| | | |
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Troseddwyr a Throseddu - Trosolwg | 4 |
| | Perygl o aildroseddu | 5 |
| 3 | Trosolwg o Drwyddedu Tacsi | 6 |
| | Gyrrwyr Tacsi | 6 |
| | Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat | 9 |
| | Perchnogion Cerbydau | 10 |
| 4 | Arweiniad ar Benderfynu | 10 |
| | Gofynion cyn ymgeisio | 11 |
| | - Gyrrwyr | |
| | - Cerbydau | |
| | - Gweithredyr | |
| | Gyrrwyr | |
| | - Troseddau sy'n arwain at farwolaeth | 14 |
| | - Camfanteisio/Ecsbloetiaeth | 14 |
| | - Troseddau sy'n ymwneud a thrais | 14 |
| | - Troseddau sy'n ymwneud ag arf | 14 |
| | - Troseddau rhyw ac anwedduster | 14 |
| | - Anonestrwydd | 14 |
| | - Cyffuriau | 14 |
| | - Gwahaniaethu | 15 |
| | - Euogfarnau moduro | 15 |
| | - Yfed / gyrru dan ddylanwad cyffuriau / defnyddio ffôn llaw neu ddyfais law wrth yrru. | 15 |
| | - Troseddau moduro eraill | 15 |
| | - Troseddau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat | 16 |
| | - Troseddau trwy defnyddion cerbydau | 16 |
| | Gweithredwyr llogi/hurio preifat | 16 |
| | Perchnogion cerbydau | 16 |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Diben y polisi hwn yw rhoi arweiniad ar y meini prawf y mae'r cyngor yn eu defnyddio wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeilydd trwydded gyfredol yn unigolyn cymwys a phriodol, neu ddiogel ac addas (gweler adran 3.13) i ddal trwydded.

1.1 Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i unrhyw un sydd â diddordeb mewn trwyddedu ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Yn benodol, ond nid yn unig:

- Ymgeiswyr am drwyddedau gyrwyr / gweithredwyr
- Gyrwyr / gweithredwyr trwyddedig presennol y mae eu trwyddedau'n cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu a'r Heddlu
- Aelodau'r Panel / Pwyllgor Trwyddedu (neu gorff gwneud penderfyniadau arall perthnasol)
- Llys Ynadon neu Lys y Goron sy'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol

1.2 Mae'r polisi hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar y 'Canllawiau i benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedeion y masnachau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat (2018)'. O'r herwydd, bydd rhai adrannau o'r polisi hwn yn darllen fel math o 'arweiniad i bawb', ac mae'r rhesymeg dros gadw'r wybodaeth hon o fewn y polisi hwn yn syml; dylai'r rhesymau a ddefnyddia'r penderfynyddion fod yn gyson a thryloyw. Darperir y wybodaeth ychwanegol felly i 'amlinellu'r cefndir' a rhoi mwy o wybodaeth i bawb sy'n gysylltiedig â'r maes hwn neu sydd â diddordeb ynddo.

1.3 Hefyd, mae'r polisi hwn yn cyd-fynd yn agos ag arweiniad y Sefydliad Trwyddedu oherwydd bod yr awdurdod hwn yn cydnabod bod angen bod yn gyson ar draws y wlad i sicrhau bod diogelwch y cyhoedd yn cael lle cwbl amlwg yn y broses gwneud penderfyniadau.

1.4 Mae'r unig wyriadau oddi wrth yr arweiniad a luniwyd gan y Sefydliad Trwyddedu yn cael eu gwneud i adlewyrchu gofynion penodol Cyngor Sir Ceredigion neu i roi datganiadau diffiniol.

1.5 Bydd y polisi hwn yn weithredol ar unwaith ar gyfer pob trwydded newydd. Hefyd, bydd gan unrhyw drwyddedeion, yr ystyriwyd eu bod yn "gymwys a phriodol" dan y polisi euogfarnau blaenorol, "hawliau taid". Fodd bynnag, pe byddai unrhyw drwyddedai presennol yn ail-droseddu (achos troseddol neu foduro), rhoddir ystyriaeth i'r holl euogfarnau blaenorol adeg adnewyddu'r drwydded neu pan hysbysir y Cyngor o drosedd o'r fath.

1.6 Ceidw'r Cyngor yr hawl i wyrdroi penderfyniad a wnaed yn flaenorol, neu wrthod adnewyddu trwydded, os canfyddir camgymeriadau amlwg sy'n golygu nad ystyrir bod unigolyn yn gymwys a phriodol mwyach.

1.7 Prif nod unrhyw Awdurdod Trwyddedu wrth gyflawni ei swyddogaethau o safbwynt trwyddedu Gyrwyr Cerbydau Hacni neu Hurio Preifat, Gweithredwyr a Pherchnogion Cerbydau, fydd diogelu'r cyhoedd ac eraill sy'n defnyddio gwasanaethau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat (neu y gallai'r gwasanaethau hyn effeithio arnynt).

1.8 Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn darparu bod yn rhaid i unrhyw unigolyn fodloni'r awdurdod ei fod yn unigolyn cymwys a phriodol i ddal trwydded, a phrawf yw hwnnw sydd i'w ddefnyddio ar ôl i unrhyw ymgeisydd ennill unrhyw gymwysterau gofynnol rhesymol. Yn rhan olaf y broses ymgeisio y gwneir y penderfyniad, boed hynny gan Bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog dan Gynllun Dirprwyo. Mae'n cynnwys gwneud archwiliad manwl o'i holl gymeriad er mwyn gwneud penderfyniad ynglŷn ag a yw'n gymwys a phriodol.

1.9 Os yw deilydd trwydded yn syrthio'n brin o'r safon cymwys a phriodol ar unrhyw adeg, dylid diddymu'r drwydded neu beidio â'i hadnewyddu pan geir cais i wneud hynny.

1.10 Mae hwn yn bolisi 'llinell bendant' ac mae'n dweud "byth", ond dylid sylwi ei fod yn dal yn bolisi, ac o'r herwydd nid yw'n golygu ei fod yn llyffetheirio dim ar ddisgresiwn yr awdurdod. Caiff pob achos ei ystyried ar ei rinweddau ei hun gan ystyried y polisi, a gall yr awdurdod trwyddedu wyro oddi ar y polisi os yw'n barnu ei bod yn briodol gwneud hynny. Bydd hyn yn digwydd fel arfer os yw'r awdurdod trwyddedu yn ystyried y ceir amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau penderfyniad gwahanol. Cymeradwywyd y dull gweithredu hwn gan yr Uchel Lys yn R (ar gais Nicholds) yn erbyn Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (2007).

1.11 Mae Adran 2 o'r polisi hwn yn pwyso a mesur y rhesymeg bresennol y tu ôl i dueddiadau unigolyn i aildroseddu. Mae'n amlwg nad yw hon yn wyddor union, ac nid oes dim tystiolaeth ystadegol ystyrlon nac union sy'n gallu helpu i bennu'r polisi. Ac ystyried mai er mwyn diogelu'r cyhoedd y mae trwyddedu, dylid gosod unrhyw safon ar y lefel uchaf, resymol, er y gellir defnyddio disgresiwn fel y nodir ym mharagraff 1.10 ac mewn mannau eraill yn y ddogfen hon.

1.12 Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys rhestr fanwl o droseddau. Caiff pob trosedd ei ddyrannu i gategori cyffredinol megis 'anonestrwydd' neu 'cyffuriau'. Mae hyn yn golygu na ellir dadlau nad yw'r Polisi yn cwmpasu trosedd penodol gan 'nad yw ar y rhestr' ac na ellir ychwaith ddadlau bod dryll tanio yn fwy difrifol na chyllell ac y dylid gwahaniaethu rhwng y rhain.

## 2.0 Troseddwyr a Throseddu - Trosolwg

2.1 Y rheswm pam bod awdurdodau lleol yn trwyddedu'r masnachau tacsis a cherbydau hurio preifat yw er mwyn diogelu'r cyhoedd. Gyda hyn mewn cof, rhaid i Ddiogelu'r Cyhoedd fod yn un o'r prif ystyriaethau i benderfynydd wrth wneud penderfyniad ynglŷn ag a ystyrir bod ymgeisydd yn "unigolyn cymwys a phriodol" i ddal trwydded.

2.2 Yn yr adran hon ceir trosolwg byr ar ddiogelu'r cyhoeddus, sut i bennu risg a'r ffactorau sydd i'w hystyried pan fo ymgeisydd yn ceisio dangos newid yn ei ymddygiad troseddol.

2.3 Mae'r broses drwyddedu yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiogelu'r cyhoedd. Ac ystyried natur y rôl, mae'n holl bwysig bod y rheini sy'n ceisio gwneud bywoliaeth yn y masnachau yn bodloni'r safonau gofynnol. Oherwydd y gellir ystyried bod ymddygiad troseddol blaenorol yn gallu rhagfynegi ymddygiad i'r dyfodol yn ogystal ag euogrwydd, mae'n hanfodol bod y penderfynydd yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol gan gynnwys euogfarnau, rhybuddion a chwynion blaenorol a'r amser a aeth heibio ers cyflawni'r rhain.

2.4 Gwnaed gwaith ymchwil helaeth i'r rhesymau y tu ôl i pam bod rhai unigolion yn troseddu, pam bod rhai yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau ac yn rhoi'r gorau i droseddu, tra bod eraill yn cael eu hunain mewn cylch troseddu mynych. Mae sawl damcaniaeth wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd sy'n cynnig cipolwg ar y rhesymau y tu ôl i'r ymddygiad troseddol. Un thema gyffredin yw nad oes yr un dau drosedd yr un fath ac na ellir anwybyddu'r risg, na darogan y dyfodol. Yr hyn y gellir ei wneud yw pwyso a mesur pob achos ar ei rinweddau ei hun, edrych ar y risgiau dan sylw ynghyd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau ers i'r troseddau cael eu cyflawni i helpu i wneud y penderfyniad.

2.5 Un ffactor allweddol wrth ystyried cais gan unigolyn sydd ag euogfarnau, rhybuddion neu gwynion yw Diogelu'r Cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys asesu'r risg o aildroseddu a niwed. Mae'r rheini sy'n gyfrifol am reoli unigolion sydd wedi cyflawni troseddau yn defnyddio offer asesu risg yn rheolaidd. Nid yw'r wybodaeth hon gan Awdurdodau Lleol bob amser felly mae'n bwysig, pan wnânt benderfyniadau am addasrwydd, fod ganddynt ddealltwriaeth o ymddygiad troseddol a risg aildroseddu yn gyffredinol.

**Perygl o aildroseddu**

2.6 Po fwyaf o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r trosedd gael ei gyflawni, y mwyaf tebygol fydd yr unigolyn o ymatal rhag troseddu. Dywedir mai po fwyaf y caiff bywyd ei fyw heb droseddu, y mwyaf y daw rhywun i weld manteision ymatal (Maguire et al, 2002). Mae dangos newid mewn ymddygiad troseddol ynghyd â'r gallu i wneud dewisiadau effeithiol yn cymryd amser a cheir cryn dipyn o amwysedd i'r rheini sydd wedi cyflawni troseddau. Daeth astudiaeth yn 2007, a edrychai i mewn i euogfarnau blaenorol a'r cysylltiadau ag aildroseddu, i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod unigolion sydd wedi troseddu yn y gorffennol pell yn llai tebygol o aildroseddu nag unigolion sydd wedi troseddu yn y gorffennol agos (Kurlychek et al, 2007).

2.7 Er nad yw'n bosibl darogan ymddygiad unigolyn i'r dyfodol, gellir cymryd camau i leihau risg a diogelu'r cyhoedd drwy ddilyn y prosesau a'r canllawiau cywir. Mae rhoi ystyriaeth i ymddygiad blaenorol unigolyn a'i botensial i achosi niwed o ganlyniad i'r dewisiadau a wnaeth yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniad ynglŷn â rhoi trwydded. Bydd bod yn gallu dangos tystiolaeth o newid mewn ymddygiad yn golygu ystyried yr amgylchiadau adeg troseddu, y camau a

DRAFT

gymerwyd i roi sylw i unrhyw broblemau a welwyd ynghyd â gallu'r unigolyn hwnnw i gynnal y cyfryw newid. Gall hon fod yn broses hir na ellir ond ei chyflawni dros amser.

**3.0 Trosolwg ar Drwyddedu 'Tacsis'**

3.1 Mae bron pawb yn ein cymdeithas yn defnyddio tacsis yn achlysurol, ond mae rhai grwpiau agored i niwed sy'n eu defnyddio'n rheolaidd: plant; pobl hŷn; pobl anabl; a phobl dan ddylanwad, ac mae gan yrrwr tacsi gryn bŵer dros deithiwr sy'n rhoi eu hunain, a'u diogelwch personol, yn gyfan gwbl yn nwylo'r gyrrwr.

3.2 Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

3.3 Y brif ddeddfwriaeth yw Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Mae diben trwyddedu tacsis yn cael ei ddisgrifio yn "Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat – Canllaw ar Arfer Gorau", yr Adran Drafnidiaeth, paragraff 8 sy'n datgan: "Nod trefniadau trwyddedu masnachau tacsis a cherbydau hurio preifat awdurdodau lleol yw diogelu'r cyhoedd."

3.4 Fel rhan o'r ddwy gyfundrefn drwyddedu, ceir 5 math o drwydded: cerbyd hacni; cerbyd hurio preifat; gyrrwr cerbyd hacni; gyrrwr cerbyd hurio preifat a gweithredwr cerbydau hurio preifat.

3.5 O safbwynt pob un o'r trwyddedau hyn, mae gan yr awdurdod ddisgresiwn dros roi trwydded neu beidio. Er bod yr Adran Drafnidiaeth yn rhoi ychydig o ganllawiau, nid oes dim safonau cenedlaethol i'w cael.

3.6 Ni ellir rhoi trwydded i yrwyr na gweithredwyr oni fod yr awdurdod yn fodlon eu bod yn "unigolyn cymwys a phriodol" i ddal y drwydded honno (gweler Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a51 ac a59 o safbwynt gyrwyr; a55 o safbwynt gweithredwyr).

3.7 Ni cheir dim meini prawf statudol ar gyfer trwyddedau cerbydau; felly, mae gan yr awdurdod ddisgresiwn llwyr ac mae gwybodaeth ychwanegol ar y gofynion ar gyfer Sir Ceredigion i'w chael yn y Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat llawn.

3.8 Ym mhob achos, mae gan yr awdurdod bwerau i roi trwydded, ei hadnewyddu pan ddaw cais i law a, thra bo'r drwydded yn gyfredol, ei hatal neu ei dirymu.

**Gyrwyr Tacsis**

3.9 Mae'r term "gyrrwr tacsi" yn golygu dwy alwedigaeth wahanol: gyrwyr cerbydau hacni a gyrwyr cerbydau hurio preifat. Caiff "gyrrwr tacsis" felly ei ddefnyddio fel term eang, cyffredinol am yrwyr cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni. Ym mhob achos, ceir meini prawf statudol sy'n union yr un fath y mae'n rhaid eu bodloni cyn gellir rhoi trwydded ac mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn rhoi trwyddedau "deuol" neu "gyfunol" ar gyfer gyrru'r ddau fath o gerbyd.

3.10 Mae gofynion penodol cais ar gyfer yr awdurdod hwn wedi'u hamlinellu yn y canllaw Cerbydau Hacni a Hurio Preifat sydd ynghlwm wrth y ffurflen gais. Un o'r gofynion yw bod yn rhaid dal trwydded DVLA lawn, bod â'r hawl i weithio yn y DU a bod wedi pasio prawf gwybodaeth. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i'r unigolyn hefyd fod yn unigolyn "cymwys a phriodol".

3.11 Yr ystyriaeth "cymwys a phriodol" sy'n achosi'r anawsterau mwyaf i awdurdodau lleol. Ni chafodd erioed ei ddiffinio'n farnwrol ond fe'i crybwyllwyd yn achos Cyngor Dinas Leeds yn erbyn Hussain (2003). Dywedodd Silber J:

"'... diben y pŵer i atal yw diogelu defnyddwyr cerbydau trwyddedig a'r rheini sy'n cael eu gyrru ganddynt ac aelodau'r cyhoedd. Ei ddiben [ac], felly [y prawf cymhwysedd a phriodoldeb], yw atal trwyddedau rhag cael eu rhoi i neu eu defnyddio gan unigolion nad ydynt yn bobl addas ac ystyried eu hanes o yrru, eu profiad o yrru, eu sobrwydd, eu haddasrwydd meddyliol a chorfforol, eu gonestrwydd, a'u bod yn bobl na fyddent yn manteisio ar eu cyflogaeth i gam-drin nac ymosod ar eu teithwyr."

3.12 Caiff hyn ei adlewyrchu mewn prawf a ddefnyddir yn eang gan nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion:

'A fyddech chi (fel aelod o'r pwyllgor trwyddedu neu unigolyn arall y rhoddwyd iddo'r gallu i roi trwydded i yrrwr cerbydau hacni) yn caniatáu i'ch mab neu'ch merch, eich cymar neu'ch partner, eich mam neu'ch tad, eich ŵyr neu'ch wyres neu unrhyw un arall sy'n annwyl i chi, fynd i gerbyd gyda'r unigolyn hwn ar eu pen eu hunain?'

3.13 Mae'r awdurdod hwn yn cydnabod bod yr ymadrodd unigolyn "diogel ac addas" i ddal trwydded gyrrwr yn ddehongliad da nad yw'n ychwanegu at nac yn tynnu oddi ar y term "cymwys a phriodol" gwreiddiol ond yn hytrach mae'n gwneud y cysyniad yn fwy diweddar.

3.14 Mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i fynnu bod ymgeisydd yn darparu:

"y cyfryw wybodaeth y barnant yn rhesymol ei bod yn angenrheidiol i'w galluogi i benderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio ac a ddylid rhoi amodau ynghlwm wrth y cyfryw drwydded." Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a57(1)). Mae'r holl fanylion i'w gweld yn y ffurflen gais i Yrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

3.15 Gall darparu gwybodaeth fel hyn fodloni'r awdurdod lleol bod gan yr unigolyn y sgiliau a'r cymwyseddau i fod yn yrrwr proffesiynol i ddal trwydded. Fodd bynnag, mae'r cysyniadau diogelwch ac addasrwydd yn mynd gam ymhellach. Rhaid rhoi ystyriaeth i gymeriad yr unigolyn hefyd.

3.16 Mae gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn eithriedig rhag darpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn golygu na cheir euogfarnau "wedi'u disbyddu" ac y gall yr awdurdod lleol roi ystyriaeth i bob euogfarn droseddol, os o gwbl, (heblaw am "euogfarnau gwarchodedig" a "rhybuddion gwarchodedig" os cawsant eu datgan) wrth asesu diogelwch ac addasrwydd, ond ni ddylai'r penderfynydd ond ystyried euogfarnau perthnasol

sydd wedi'u disbyddu. **SYLWER:** Materion unigol, bychain o'r gorffennol nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw Dystysgrifau DBS yw "euogfarnau gwarchodedig" a "rhybuddion gwarchodedig". Ym mhob achos mae gofyn cael Tystysgrif DBS manwl ar gyfer y cais cyntaf a bob tair blynedd wedi hynny.

3.17 Rhaid i gymeriad y gyrrwr yn ei gyfanrwydd fod yn ystyriaeth bwysig wrth ystyried a ddylid ei drwyddedu ai peidio. Mae'n bwysig cydnabod nad yw awdurdodau lleol yn rhoi unrhyw gosb ychwanegol ar euogfarnau nac ymddygiad blaenorol. Yr hyn a wnânt yw defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn ag yw'r ymgeisydd neu'r trwyddedai yn dal i fod yn unigolyn diogel ac addas.

3.18 Mae cyfraith achosion yn datgan yn glir na ddylid rhoi ystyriaeth i'r effaith a gaiff colli (neu beidio â rhoi) trwydded gyrrwr ar yr ymgeisydd a'i deulu (Cyngor Dinas Leeds yn erbyn Hussain, 2002).

3.19 Mae'n hanfodol bod Cynghorwyr yn cydnabod mai'r polisi hwn, er mai dyma bolisi ac felly ganllawiau yr Awdurdod ei hun ar y mater, yw'r llinell sylfaen ar gyfer derbynioldeb. Ni ddylid ond gwyro oddi arno mewn amgylchiadau eithriadol ac am resymau y gellir eu cyfiawnhau, ac fe ddylid cofnodi'r rhain.

3.20 Un camddealltwriaeth cyffredin yw, os na chyflawnwyd y trosedd pan oedd y gyrrwr yn gyrru tacsi, ei fod yn llawer llai difrifol, neu hyd yn oed os oedd mewn tacsi ond nid pan oedd yn cario teithwyr. Nid yw hyn yn berthnasol: mae goryrru yn beryglus, ni waeth beth oedd y sefyllfa; mae yfed a gyrru yn beryglus, ni waeth beth oedd y sefyllfa; mae teiars llyfn yn beryglus, ni waeth beth oedd y sefyllfa. Mae'r ymddygiadau uchod oll yn rhoi'r cyhoedd mewn perygl. Mae ymddygiad treisgar bob amser yn ddifrifol. Nid yw'r ddadl mai anghydfod domestig ydoedd, neu na ddigwyddodd yn y tacsi, yn berthnasol. Mae gan unigolyn sydd â thueddiad i fod yn dreisgar y potensial hwnnw ym mhob sefyllfa. Mae troseddau rhyw bob amser yn ddifrifol. Mae unigolyn sydd yn y gorffennol wedi camddefnyddio ei sefyllfa (beth bynnag y bo honno) i ymosod ar un arall yn rhywiol wedi dangos safonau ymddygiad cwbl annerbyniol.

3.21 Gallai ymgeiswyr honni eu bod wedi ceisio cyflogaeth mewn meysydd eraill ac wedi cael eu hatal oherwydd eu hanes blaenorol yn enwedig os yw'r hanes hwnnw yn cynnwys euogfarnau. Y gobaith olaf iddynt felly yw ceisio dod yn yrrwr trwyddedig. Mae hyn yn annerbyniol oherwydd y byddai rhoi trwydded yn rhoi'r cyfryw unigolyn mewn swydd gyfrifol unigryw. Prif gyfrifoldeb awdurdod trwyddedu yw diogelu'r cyhoedd, nid darparu cyfleoedd i gael gwaith.

3.22 Disgwylir i drwyddedeion ddangos ymddygiad proffesiynol priodol bob amser, boed hynny yng nghyd-destun eu gwaith neu fel arall. Dylai trwyddedeion fod yn gwrtais, osgoi gwrthdaro, peidio â bod yn dreisgar na dangos rhagfarn mewn unrhyw ffordd. Ni ddylai trwyddedeion mewn unrhyw amgylchiadau gymryd y gyfraith yn eu dwylo eu hunain. Disgwylir i drwyddedeion ymddwyn ag uniondeb a dangos ymddygiad sy'n addas i'r ymddiriedaeth a roddir ynddynt.

3.23 Mae unigolion i'w cael sy'n ceisio manteisio ar bobl agored i niwed drwy ddarparu gwasanaethau nad oes ganddynt hawl eu darparu; er enghraifft, drwy geisio cael



DRAFT

eu hurio mewn ardal lle nad oes ganddynt hawl gwneud hynny. Disgwylir i drwyddedeion fod yn effro i ymddygiad o'r fath a dweud wrth yr Heddlu a'r awdurdod trwyddedu perthnasol am unrhyw bryderon. Dylai teithwyr deimlo'n hyderus i holi a oes gan y sawl sy'n cynnig gwasanaeth hawl i wneud hynny. Dylai trwyddedeion fod yn barod i ddangos bod ganddynt hawl i ddarparu'r gwasanaeth a gynigir drwy, er enghraifft, ddangos eu bathodyn.

**Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat**

3.24 Gweithredwr cerbydau hurio preifat (PHO) yw'r sawl sy'n cymryd archeb am gerbyd hurio preifat ("PHV"), ac sydd wedyn yn anfon gyrrwr PHV sy'n cael ei yrru gan yrrwr cerbyd hurio preifat trwyddedig (PHD) i gyflawni'r archeb honno. Rhaid i'r tair trwydded (PHO, PHV a PHD) fod wedi cael eu rhoi gan yr un awdurdod. Ni all awdurdod lleol roi trwydded PHO oni fod gan yr ymgeisydd hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig a'i fod yn unigolyn cymwys a phriodol.

3.25 Fel gyda gyrwyr tacsis, mae rôl y PHO yn mynd llawer pellach nag ond cymryd archebion ac anfon cerbydau allan. Wrth wneud yr archeb ac anfon y cerbyd a'r gyrrwr allan, bydd y PHO yn cael llawer iawn o wybodaeth bersonol. Mae felly'n hanfodol bod y PHO mor anrhydeddus a dibynadwy â'r gyrrwr, er eu bod yn gweithredu mewn rôl o bellter. Gall cerbydau hacni gael eu harchebu ymlaen llaw hefyd, ond dylai awdurdodau lleol gadw mewn cof, os gwneir yr archeb honno gan unrhyw un heblaw gyrrwr cerbyd hacni, nad oes dim trefniadau fetio na rheolaethau ar waith o safbwynt y sawl sy'n cymryd yr archeb honno ac sy'n dal y wybodaeth bersonol honno.

3.26 Gellir rhoi ystyriaeth i euogfarnau wedi'u disbyddu wrth benderfynu ynglŷn ag addasrwydd am drwydded, ond ni ellir ond gofyn i'r ymgeisydd (neu drwyddedai adeg adnewyddu) gael Datgeliad Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.27 Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cyson a gwybodus, mae'n bwysig cael prawf gweithredol o gymhwysedd a phriodoldeb ar gyfer PHOs ynghyd ag amrywiad addas ar y prawf ar gyfer gyrwyr. "A fyddwn i'n gyfforddus yn rhoi gwybodaeth sensitif megis cynlluniau gwyliau, symudiadau fy nheulu neu wybodaeth arall i'r unigolyn hwn, a theimlo'n ddiogel gan wybod na fyddai'r cyfryw wybodaeth yn cael ei defnyddio na'i phasio ymlaen at ddibenion troseddol neu annerbyniol?"

3.28 Mae pwynt arall y mae angen ei ystyried o safbwynt PHOs ac mae hwnnw'n ymwneud â'r staff a ddefnyddir ar y teleffonau a'r radios. Nid oes dim rheswm pam na ellir rhoi amod ar drwydded PHO sy'n mynnu eu bod yn gwneud archwiliadau ar y rheini a gyflogant/a ddefnyddiant yn eu cwmni er mwyn bodloni eu hunain eu bod yn bobl gymwys a phriodol i wneud y dasg honno, a'u bod yn cadw'r wybodaeth honno i ddangos i'r awdurdod lleol eu bod yn cydymffurfio. Byddai gan unrhyw fethiant ar ran y PHO i naill ai gydymffurfio â'r gofyn hwn, neu i weithredu ar y wybodaeth a gânt (a chaniatáu felly i staff anaddas weithio mewn swyddi cyfrifol), wedyn yn codi cwestiynau difrifol ynglŷn ag a yw'r PHO yn dal i fod yn gymwys a phriodol.

3.29 Dylid cymryd gofal mewn amgylchiadau lle ceisir Trwydded PHO yn enw cwmni cyfyngedig, partneriaeth neu strwythur busnes arall, fod yr holl ofynion sy'n berthnasol i ymgeisydd unigol hefyd yn berthnasol i bob cyfarwyddwr neu bartner yn sefydliad yr ymgeisydd. Dim ond drwy wneud hynny y gellir gwneud penderfyniad ynglŷn â chymhwysedd a phriodoldeb yr endid gweithredu.

**Perchnogion Cerbydau**

3.30 Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i berchnogion cerbydau, yn gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat (cyfeirir atynt yma yn gyffredinol fel "tacsis"). Er nad yw perchennog y cerbyd o bosibl yn gyrru'r cerbyd (ac os ydynt byddant yn rhwym wrth eu prawf cymhwysedd a phriodoldeb eu hunain i gael trwydded gyrrwr), mae ganddynt yn amlwg fuddiant yn nefnydd y cerbyd. Byddant hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cerbyd, a chaiff cerbydau na chânt eu cynnal a'u cadw'n briodol effaith amlwg ar ddiogelwch y cyhoedd.

3.31 Defnyddir tacsis i gludo pobl mewn nifer o amgylchiadau, ac fe'u gwelir ym mhobman ar draws y Deyrnas Unedig, bob adeg o'r dydd a'r nos, mewn unrhyw leoliad. Felly, gallai tacsis fod yn system gludo ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon neu unrhyw fath o nwyddau gwaharddedig, boed yn gyffuriau, gynnau, alcohol neu faco anghyfreithlon, neu'n bobl sy'n rhan o weithgaredd anghyfreithlon neu'n ddioddefwyr gweithgaredd o'r fath, neu'n blant sydd, neu y gallent fod, mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hecsbloetio.

3.32 O safbwynt cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, mae gan yr awdurdod lleol ddisgresiwn llwyr dros roddi'r drwydded a dylent felly sicrhau bod eu hymholiadau a'u hystyriaethau'n drwyadl. Mae'n golygu llawer mwy nag ond edrych ar y cerbyd ei hun ac mae'r un mor berthnasol i geisiadau i drosglwyddo cerbyd ag y mae i geisiadau rhoddi.

3.33 Unwaith eto, nid yw hon yn alwedigaeth eithriedig at ddibenion Deddf 1974, ond defnyddir yn union yr un broses ag ar gyfer gweithredwyr cerbydau hurio preifat – Datgeliad sylfaenol, datganiad statudol ac ystyried euogfarnau wedi'u disbyddu. Caiff hwn wedyn ei ddefnyddio yng ngoleuni polisi tebyg o safbwynt addasrwydd ag a fydd gan yr awdurdod eisoes ar gyfer gyrwyr a PHOs.

3.34 Un prawf addas fyddai: "A fyddwn i'n gyfforddus yn caniatáu i'r unigolyn hwn fod yng ngofal cerbyd trwyddedig sy'n gallu teithio i unrhyw le, ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos heb godi amheuon, a bod yn fodlon na fyddai ef/hi yn gadael iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion troseddol neu ddibenion annerbyniol eraill, a bod yn hyderus y byddai ef/hi yn ei gynnal i safon dderbyniol tra pery'r drwydded?".

## 4.0 Arweiniad ar Benderfynu

4.1 Fel sy'n glir o'r trosolwg ar Droseddwyr a Throseddu uchod, nid oes dim tystiolaeth sy'n gallu rhoi union amser sy'n gorfod pasio ar ôl troseddu nes gellir ystyried nad yw unigolyn yn berygl o aildroseddu mwyach, er bod y risg yn lleihau dros amser. Yng ngoleuni hynny, bwriedir i'r amserlenni isod leihau'r risg i'r cyhoedd i lefel dderbyniol.

4.2 Mae sawl aelod o'n cymdeithas yn defnyddio, a hyd yn oed yn dibynnu ar, gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat am wasanaethau cludo. Gall hyn fod yn rheolaidd, neu ddim ond yn achlysurol, ond ym mhob achos, rhaid i deithwyr, a defnyddwyr eraill y ffordd a'r gymdeithas gyfan fod â hyder yn niogelwch ac addasrwydd y gyrrwr, y cerbyd ei hun ac unrhyw un sy'n rhan o'r broses archebu.

4.3 Yn ddelfrydol, byddai pawb sy'n rhan o'r masnachau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat (gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, perchnogion cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat) yn unigolion cwbl anrhydeddus. Mewn sawl achos mae hyn yn wir, ac mae'r mwyafrif helaeth o'r rheini sy'n rhan o'r masnachau hyn yn unigolion gweddus, parchus, gonest a gweithgar. Yn anffodus, fel mewn unrhyw alwedigaeth neu fasnach, ceir rhai sy'n methu â chydymffurfio â'r safonau hynny.

4.4 Diben y ddogfen hon yw disgrifio sut gall yr awdurdod trwyddedu hwn benderfynu a yw unigolyn penodol yn ddiogel ac yn addas i naill ai gael trwydded yn y lle cyntaf neu gadw'r drwydded honno. Fel yr amlinellir uchod, fe all ac fe fydd y polisi hwn yn dweud 'byth' ond bydd pob achos yn dal i gael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun.

**Gofynion cyn ymgeisio**

4.5 Mae gan yr awdurdod hwn ei ofynion cyn ymgeisio penodol ei hun i yrwyr, cerbydau a gweithredwyr ac maent i'w gweld yn yr adrannau perthnasol o'r polisi cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a/neu ar y ffurflen gais briodol.

4.6 O safbwynt pob un o'r trwyddedau hyn, mae gan yr awdurdod trwyddedu ddisgresiwn i roddi'r drwydded neu beidio.

4.7 Ni ellir rhoi trwydded i yrwyr na gweithredwyr oni fod yr awdurdod yn fodlon eu bod yn "unigolyn cymwys a phriodol" i ddal y drwydded honno (gweler Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a51 ac a59 o safbwynt gyrwyr; a55 o safbwynt gweithredwyr).

4.8 Ni cheir meini prawf statudol ar gyfer trwyddedau cerbydau, felly mae gan yr awdurdod ddisgresiwn llwyr dros roddi naill ai trwydded cerbydau hacni neu drwydded perchennog cerbydau hurio preifat.

4.9 Mae "cymwys a phriodol" yn golygu bod yr unigolyn (neu yn achos trwydded gweithredwr cerbydau hurio preifat, y cwmni cyfyngedig ynghyd â'i gyfarwyddwyr a'r ysgrifennydd, neu holl aelodau partneriaeth) yn "ddiogel ac addas" i ddal trwydded.

4.10 Wrth benderfynu ar ddiogelwch ac addasrwydd, mae gan yr awdurdod trwyddedu hawl i roi ystyriaeth i bob mater sy'n berthnasol i'r ymgeisydd neu'r trwyddedai hwnnw. Nid dim ond ymddygiad yr unigolyn hwnnw wrth ei waith yn y fasnach cerbydau hacni neu hurio preifat sy'n cael ei ystyried. Mae'r ystyriaeth hon yn llawer ehangach nag ond euogfarnau troseddol neu dystiolaeth arall o ymddygiad annerbyniol, a chaiff cymeriad cyflawn yr unigolyn ei ystyried. Gallai hyn gynnwys, ond nid yn unig, agwedd a thymer yr unigolyn.



DRAFT

4.11 Caiff euogfarnau am ymgeisio neu gynllwynio eu hystyried fel euogfarnau am y trosedd gwirioneddol. Caiff rhybudd ei ystyried yn union yr un fath ag euogfarn. Mae hyn oherwydd na ellir ond rhoi rhybudd ar ôl cyfaddef euogrwydd, sy’n cyfateb i ble o euogrwydd mewn erlyniad. Caiff cosbau penodedig a chosbau cymunedol hefyd eu hystyried yn yr un ffordd ag euogfarn. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod talu cosb benodedig yn dangos bod y sawl yn cyfaddef euogrwydd, ac ni ellir ond rhoi cosb gymunedol ar ôl i’r sawl gyfaddef euogrwydd.

4.12 Mae’n bwysig sylweddoli y bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi ystyriaeth i faterion nad ydynt wedi arwain at euogfarn droseddol (boed hynny oherwydd rhyddfarn, oherwydd i euogfarn gael ei dileu, oherwydd penderfyniad i beidio ag erlyn neu os yw’r ymchwiliad yn parhau a bo’r unigolyn ar fechnïaeth). Yn ogystal, caiff cwynion nad oedd gan yr heddlu ddim rhan ynddynt hefyd eu hystyried. Yn y ddogfen hon, bydd unrhyw gyfeiriad at “euogfarn” hefyd yn cynnwys materion sydd cyfystyr ag ymddygiad troseddol, ond nad ydynt wedi arwain at euogfarn.

4.13 Yn achos unrhyw ymgeisydd newydd sydd wedi ei gyhuddo o unrhyw drosedd ac sy’n aros am y treial, caiff y penderfyniad ei ohirio nes i’r treial gael ei gwblhau neu nes i’r cyhuddiadau gael eu tynnu’n ôl. Os caiff trwyddedai cyfredol ei gyhuddo, mater i’r awdurdod trwyddedu fydd penderfynu pa gamau i’w cymryd yng ngoleuni’r canllawiau hyn.

4.14 Ym mhob achos, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried yr euogfarn neu’r ymddygiad dan sylw a faint o bwys y dylid roi ynghlwm wrthynt, a phenderfynir ar bob achos unigol ar ei rinweddau ei hun, ac yng ngoleuni’r canllawiau hyn.

4.15 Bydd unrhyw droseddau a gyflawnir, neu ymddygiad annerbyniol yr adroddir amdano wrth yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, sy’n ymwneud â defnyddio cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, neu mewn cysylltiad â gweithredwr cerbyd hurio preifat, yn cael eu hystyried fel ffactorau gwaethygol, ac ni fydd y ffaith nad oedd unrhyw droseddau eraill yn gysylltiedig â’r masnachau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn cael ei hystyried yn ffactor lliniarol.

4.16 Oherwydd y bydd yr awdurdod trwyddedu yn edrych ar unigolyn yn ei gyfanrwydd, mewn sawl achos ni phenderfynir ar ddiogelwch ac addasrwydd drwy fod amser penodol wedi pasio yn dilyn euogfarn neu ar ôl cwblhau dedfryd. Mae cyfnodau amser yn ystyriaethau perthnasol a phwysig, ond nid dyma’r unig ffactor wrth benderfynu.

4.17 Yn ogystal â natur y trosedd neu’r ymddygiad arall, rhoddir ystyriaeth i faint y materion a dros ba gyfnod o amser y cawsant eu cyflawni. Mae patrymau o ymddygiad troseddol neu annerbyniol mynych yn debygol o achosi mwy o bryder na digwyddiadau unigol ac o’r herwydd gall patrymau ddangos tueddiad at ymddygiad neu droseddu o’r fath.

4.18 Ni fydd gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr neu drwyddedeion ddim euogfarnau a dyna’r sefyllfa ddelfrydol yn amlwg. O safbwynt pobl eraill, derbynnir bod pobl yn gwneud camgymeriadau ac yn methu yn eu hymddygiad am amrywiol resymau, a derbynnir hefyd fod llawer yn dysgu oddi wrth eu profiad ac ni ânt ymlaen i gyflawni troseddau pellach. Yn unol â hynny, mewn sawl achos mae’n bosibl na fydd

DRAFT

euogfarn unigol, yn enwedig os cafodd ei chyflawni gryn amser yn ôl, yn atal yr awdurdod rhag rhoi neu adnewyddu trwydded.

4.19 Mae hefyd yn bwysig cydnabod, ar ôl i drwydded gael ei rhoi, fod gofyn i'r trwyddedai ddal i fod yn ddiogel ac yn addas. Mae gan yr awdurdod trwyddedu bwerau i ddwyn achos yn erbyn deilydd pob math o drwydded (gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr) a rhaid sylweddoli y bydd unrhyw euogfarnau neu weithredoedd eraill ar ran y trwyddedai, a fyddai wedi ei atal rhag cael trwydded adeg y cais cychwynnol, yn arwain at ddirymu'r drwydded honno.

4.20 Bydd unrhyw anonestrwydd gan unrhyw ymgeisydd neu unigolyn arall ar ran yr ymgeisydd, y canfyddir ei fod wedi digwydd mewn unrhyw ran o'r broses ymgeisio (e.e. methu â datgan neu ddatgelu euogfarnau, enwau neu gyfeiriadau ffug, geirdaon ffug) yn arwain at wrthod trwydded, neu os y'i rhoddwyd eisoes, at ei dirymu a gallai arwain at erlyniad. Rhaid i ddeiliaid trwydded fod yn ymwybodol o hyn, ynghyd â bod gofyn iddynt hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, cyn pen 72 awr o unrhyw euogfarn, rhybudd, arést ayb, boed hynny'n achos moduro neu droseddol ayb.

4.21 Gan fod yr effaith uniongyrchol ar y cyhoedd yn amrywio yn ddibynnol ar y math o drwydded yr ymgeisir amdani neu a ddelir, mae angen ystyried effaith troseddau penodol ar y trwyddedau hynny yn unigol. Fodd bynnag, mae'r ystyriaethau pwysicaf yn weithredol ym mhob sefyllfa.

4.22 Yn gyffredinol, os oes gan unigolyn fwy nag un euogfarn, bydd hyn yn codi cwestiynau difrifol am eu diogelwch a'u haddasrwydd. Mae'r awdurdod trwyddedu yn chwilio am unigolion diogel ac addas, ac unwaith y daw patrwm neu dueddiad at droseddu mynych i'r amlwg, ni chaiff trwydded ei rhoi na'i hadnewyddu.

4.23 Os caiff ymgeisydd/trwyddedai ei euogfarnu o drosedd na chyfeirir ato yn y polisi hwn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi ystyriaeth i'r euogfarn honno ac yn defnyddio'r canllawiau hyn fel arwydd o sut dylid gweithredu.

4.24 Nid yw'r canllawiau hyn yn disodli dyletswydd yr awdurdod trwyddedu i wrthod rhoi trwydded pan nad yw'n fodlon bod yr ymgeisydd neu'r trwyddedai yn unigolyn cymwys a phriodol. Os oes sefyllfa a gaiff ei diystyru gan y canllawiau hyn, rhaid i'r awdurdod ystyried yr egwyddorion cyntaf a phenderfynu ar gymhwysedd a phriodoldeb yr unigolyn.

4.25 Gan fod y meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylai unigolyn gael neu gadw trwydded gyrrwr cerbydau hacni yn union yr un fath â'r meini prawf ar gyfer trwydded gyrrwr cerbydau hurio preifat, caiff y ddau eu hystyried gyda'i gilydd.

4.26 Mae gan yrrwr gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddiogelwch ei deithwyr, cyfrifoldeb uniongyrchol dros ddiogelwch defnyddwyr eraill y ffordd a chryn reolaeth dros deithwyr sydd yn y cerbyd. Oherwydd y gallai'r teithwyr hynny fod ar eu pen eu hunain, ac y gallent hefyd fod yn agored i niwed, bydd unrhyw ymddygiad annerbyniol neu euogfarnau blaenorol yn pwyso'n drwm yn erbyn rhoi neu gadw trwydded.

4.27 Fel y dywedir uchod, os oes gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn sy'n dangos patrwm neu dueddiad ni waeth faint o amser a aeth heibio ers yr euogfarnau, bydd angen ystyried yn ddifrifol a yw'n unigolyn diogel ac addas.

4.28 O safbwynt euogfarn unigol, dylai'r cyfnodau canlynol fynd heibio ar ôl cwblhau dedfryd a bennwyd yn dilyn euogfarn (neu ddyddiad yr euogfarn os rhoddwyd dirwy) cyn y caiff trwydded ei rhoi.

**Troseddau sy'n arwain at farwolaeth**

4.29 Os oes ymgeisydd neu drwyddedai wedi cael ei euogfarnu o drosedd a arweiniodd at farwolaeth rhywun arall neu y bwriadwyd iddo achosi marwolaeth neu anaf difrifol i rywun arall, ni chânt eu trwyddedu.

**Ecsbloetiaeth**

4.30 Os cafodd ymgeisydd neu drwyddedai ei euogfarnu o drosedd a oedd yn cynnwys, neu'n gysylltiedig â, neu sydd ag unrhyw gysylltiad â cham-drin, cam-fanteisio ar, defnyddio neu drin unigolyn arall, heb ystyried ai oedolion ynteu plant oedd y dioddefwyr, ni chânt eu trwyddedu. Mae hyn yn cynnwys caethwasiaeth, camfanteisio'n rhywiol ar blant, meithrin perthynas amhriodol, camdriniaeth seicolegol, emosiynol, corfforol neu ariannol, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn.

**Troseddau treisgar**

4.31 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am drosedd treisgar, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw drosedd treisgar, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 10 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

**Arf yn ei feddiant**

4.32 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am fod ag arf yn ei feddiant, neu unrhyw drosedd arall sy'n gysylltiedig ag arfau, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

**Troseddau rhyw ac anwedduster**

4.33 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd sy'n cynnwys neu sy'n gysylltiedig â gweithgaredd rhywiol anghyfreithlon neu unrhyw fath o anwedduster, ni chaiff trwydded ei rhoi.

4.34 Yn ychwanegol at yr uchod, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar y pryd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw nac ar unrhyw restr o 'unigolion gwaharddedig'.

**Anonestrwydd**

4.35 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd anonestrwydd, neu unrhyw drosedd lle'r oedd anonestrwydd yn elfen o'r trosedd, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

**Cyffuriau**

4.36 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am, neu sy'n gysylltiedig â, chyflenwi cyffuriau, bod â chyffuriau yn ei feddiant gyda bwriad o'u cyflenwi neu euogfarn sy'n gysylltiedig â bod â chyffuriau yn ei feddiant gyda'r bwriad o'u cyflenwi, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 10 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

4.37 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am fod â chyffuriau yn ei feddiant, neu unrhyw drosedd arall sy'n gysylltiedig â bod â chyffuriau yn ei feddiant, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 5 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael ei brofi am gyffuriau ar ei gost ei hun i ddangos nad yw'n defnyddio cyffuriau a reolir.

**Gwahaniaethu**

4.38 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am wahaniaethu o unrhyw fath neu euogfarn sy'n gysylltiedig â hynny, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

**Euogfarnau moduro**

4.39 Mae gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn yrwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gludo'r cyhoedd. Mae unrhyw euogfarn yn dangos diffyg proffesiynoldeb a bernir bod hynny'n ddifrifol. Derbynnir y gall troseddau gael eu cyflawni'n anfwriadol, ac ni fyddai un trosedd traffig bychan yn golygu na ellid rhoi trwydded ac mae'n bosibl na fyddai'n arwain at weithredu yn erbyn trwydded gyfredol. Mae euogfarnau dilynol yn atgyfnerthu'r ffaith nad yw'r trwyddedai yn cymryd ei gyfrifoldebau proffesiynol o ddifrif ac nad yw felly yn unigolyn diogel ac addas i gael neu gadw trwydded.

**Yfed a gyrru/gyrru dan ddylanwad cyffuriau/defnyddio ffôn llaw neu ddyfais law wrth yrru**

4.40 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am yfed a gyrru neu am yrru dan ddylanwad cyffuriau, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd neu waharddiad gyrru a bennwyd. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael ei brofi am gyffuriau ar ei gost ei hun i ddangos nad yw'n defnyddio cyffuriau a reolir.

4.41 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am ddefnyddio ffôn symudol llaw neu ddyfais law wrth yrru, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 5 mlynedd wedi pasio ers yr euogfarn neu ers cwblhau unrhyw ddedfryd neu waharddiad gyrru a bennwyd, pa bynnag un yw'r diweddaraf.

**Troseddau moduro eraill**

4.42 Mae trosedd traffig bychan neu drosedd sy'n gysylltiedig â cherbyd yn golygu trosedd na arweiniodd at farwolaeth, gyrru dan ddylanwad diod neu gyffuriau, gyrru wrth ddefnyddio ffôn symudol, ac nad yw wedi arwain at anafu unrhyw un na difrodi unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Os oes gan ymgeisydd 7 o bwyntiau neu ragor ar ei drwydded DVLA am droseddau traffig bychan neu

DRAFT

droseddau tebyg, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 5 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

4.43 Mae trosedd traffig difrifol neu drosedd difrifol sy'n gysylltiedig â cherbyd yn cynnwys trosedd na chynhwysir dan y manylion uchod a hefyd unrhyw drosedd a arweiniodd at anafu unrhyw unigolyn neu at ddifrodi unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Mae hefyd yn cynnwys gyrru heb yswiriant neu unrhyw drosedd sy'n gysylltiedig ag yswiriant moduro. Os oes gan ymgeisydd euogfarn am droseddau traffig difrifol neu drosedd difrifol tebyg, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

**Troseddau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat**

4.44 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am drosedd sy'n ymwneud â, neu sy'n gysylltiedig â gweithgaredd cerbydau hacni neu hurio preifat (heb gynnwys defnyddio cerbydau), ni roddir trwydded nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

**Troseddau defnyddio cerbydau**

4.45 Os oes gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd yn ymwneud â defnyddio cerbyd (gan gynnwys cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat), ni roddir trwydded nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi pasio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a bennwyd.

**Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat**

4.46 Nid oes gan weithredwr cerbydau hurio preifat ("gweithredwr") gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddiogelwch teithwyr, defnyddwyr eraill y ffordd na chysylltiad uniongyrchol â theithwyr sydd yn y cerbyd hurio preifat (ac eithrio os ydynt hwy hefyd wedi'u trwyddedu fel gyrrwr cerbyd hurio preifat). Fodd bynnag, wrth gyflawni eu dyletswyddau maent yn cael ac yn cadw cryn dipyn o wybodaeth bersonol a phreifat am eu teithwyr a rhaid cadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol a pheidio â'i datgelu i eraill, a rhaid i'r gweithredwr neu ei staff beidio â defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion troseddol neu ddibenion annerbyniol eraill.

4.47 Fel y dywedir uchod, os oes gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn, bydd angen ystyried o ddifrif a ydynt yn unigolyn diogel ac addas.

4.48 Rhaid i weithredwyr sicrhau bod unrhyw staff a ddefnyddir yn y busnes (boed nhw'n gyflogedig neu'n gontractwyr annibynnol), ac sy'n gallu gweld unrhyw wybodaeth fel y disgrifir uchod, yn rhwym wrth yr un safonau â'r gweithredwr ei hun. Gellir sicrhau hyn drwy fod y gweithredwr yn mynnu bod yr aelod staff unigol yn cael tystysgrif datgelu sylfaenol. Os canfyddir nad yw'r gweithredwr yn gweithredu'r safonau gofynnol ac yn defnyddio staff nad ydynt yn bodloni meini prawf cyffredinol yr awdurdod trwyddedu, bydd hynny'n arwain at fod trwydded y gweithredwr yn cael ei dirymu.

4.49 Gan fod ymddiriedaeth a ffydd y cyhoedd yn niogelwch ac uniondeb y system hurio preifat gyffredinol yn holl bwysig, bydd y safonau sy'n weithredol ar gyfer gweithredwyr hefyd yn weithredol ar gyfer gyrwyr, fel yr amlinellir uchod.

DRAFT

**Perchnogion Cerbydau**

4.50 Mae gan berchnogion cerbydau (yn gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat) ddau brif gyfrifoldeb.

4.51 Yn gyntaf, rhaid iddynt sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gynnal i safon dderbyniol bob amser.

4.52 Yn ail, rhaid iddynt sicrhau na chaiff y cerbyd ei ddefnyddio at ddibenion anghyfreithlon neu anneddfol.

4.53 Fel y dywedir uchod, os oes gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn, bydd angen ystyried o ddifrif a yw'n unigolyn diogel ac addas i gael neu gadw trwydded cerbyd.

4.54 Gan fod ymddiriedaeth a ffydd y cyhoedd yn niogelwch ac uniondeb y system gyffredinol yn holl bwysig, bydd y safonau sy'n weithredol ar gyfer perchnogion hefyd yn weithredol ar gyfer gyrwyr, fel yr amlinellir uchod.

20/08/2021 - Drafft (1)

DRAFT